



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig

Rhan 1: Modelau a llwybrau

Jack Price, Greg Notman a Helen Tilley

Tachwedd 2024



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i nodi ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar ystod eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu meddwl ffres am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, ac anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob rhan o'r byd ac yn tynnu ar ei gwaith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisiau wedi'i llywio gan dystiolaeth. Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol ac mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau tystiolaeth ac arbenigedd ychwanegol hyn.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Cyllidwyr Craidd



Cafodd **Prifysgol Caerdydd** ei sefydlu yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n awyddus i feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Cyd-destun a manteision datganoli	7
Y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru	7
Y gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr	8
Manteision posibl datganoli	11
Ystyriaethau ymarferol	16
Gweithlu	16
Llywodraethu rhanbarthol	18
Rheolaeth a goruchwyllo	23
Cyllid	24
Rhyngweithio â phwerau a gadwyd yn ôl	26
Materion trawsffiniol	29
Gweledigaeth tymor hir	30
Opsiynau ar gyfer datganoli	31
Memorandwm cyd-ddealltwriaeth	31
Trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol	34
Datganoli deddfwriaethol a gweithrediaeth llawn	37
Crynodeb o'r opsiynau	40
Casgliad	43
Cyfeiriadau	45
Manylion yr Awduron	51

Crynodeb

- Mae Llywodraeth Cymru yn eiriol dros ddatganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid. Yn ei maniffesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024, ymrwymodd Plaid Lafur y DU i archwilio'r potensial ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru.
- Comisiynwyd CPCC i archwilio opsiynau a llwybrau ar gyfer datganoli, gan ganolbwyntio ar weithredu yn y tymor byr i'r tymor canolig. Yn yr adroddiad hwn (Rhan 1), rydym yn awgrymu tri phrif lwybr ar gyfer datganoli. Yn Rhan 2, rydym yn ystyried astudiaethau achos o wahanol wledydd Ewropeaidd.
- Mae **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** (MoU), yn debyg i'r hyn a ddefnyddir ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill, yn cynnig y cyfle i gydgomisiynu gwasanaethau. Er bod hyn yn rhoi cwrdd cyfyngedig ar gyfer goresgyn heriau gweithlu neu gyflawni, mae'n hwyluso ymatebolrwydd i anghenion lleol ac yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i gynyddu'r gwasanaeth.
- **Byddai datganoli gweithrediaeth** yn rhoi rheolaeth weithredol dros y gwasanaeth prawf i Lywodraeth Cymru, tra'n cadw'n ôl rheolaeth ddeddfwriaethol a'r rhan fwyaf o agweddau ar gyflawni i lywodraeth y DU. Gallai Llywodraeth Cymru wella amodau gwaith a chyflwyno gwerthoedd a diwylliannau sefydliadol newydd ond ni fyddai'n gallu ailddiffinio rôl y gwasanaeth prawf na newid y ffordd y caiff ei chyflawni yn sylweddol.
- **Byddai datganoli deddfwriaethol** yn trosglwyddo'r gwasanaeth prawf o bŵer a gadwyd yn ôl i bŵer datganoledig. Byddai angen sefydlu trefn lywodraethol newydd ar gyfer gwasanaeth prawf Cymru, gan ganiatáu ar gyfer newidiadau sylweddol i'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, byddai deddfydu yn aros gyda llywodraeth y DU, gan gyfyngu ar y graddau y gellir darparu'r gwasanaeth prawf yn wahanol. Byddai'r dull hwn hefyd yn ddwys iawn o ran adnoddau a gallai gynnig gwerth cyfyngedig am arian o fewn system cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl yn bennaf.
- Rydym hefyd yn ystyried ystod o ystyriaethau ymarferol y bydd angen eu rheoli ar draws y gwahanol opsiynau, gan ystyried y cyd-destunau ymarferol, gweithredol ac ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ynddynt.
- Yn y pen draw, bydd y penderfyniad ynghylch pa fodel datganoli i'w ddilyn yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau rhwng llywodraethau Cymru a'r DU. Nod ein gwaith yw llywio'r trafodaethau hyn drwy amlygu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r modelau posibl gwahanol.

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn gweithredu o fewn un awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda llywodraeth y DU yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder. Mae Llywodraeth Cymru, yn dilyn argymhellion Comisiwn Thomas, yn ceisio datganoli cyfiawnder yn llawn i Gymru (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019; Llywodraeth Cymru, 2022). Yn unol â hyn, argymhellodd Comisiwn y Blaid Lafur ar Ddyfodol y DU, dan gadeiryddiaeth Gordon Brown, y dylid datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf i Gymru (Comisiwn ar Ddyfodol y DU, 2022).

Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, ac yn dilyn casgliadau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gobaith realistig o ddatganoli agweddau ar y system gyfiawnder yn y dyfodol agos. Maent, felly, yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd hwn drwy fabwysiadu dull graddol, gan ddechrau gyda datganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2024).

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) wedi cael y dasg o gynnal ymchwil i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'u cynghorydd arbenigol annibynnol, y Fonesig Vera Baird KC (Llywodraeth Cymru, 2024). Bwriedir i'r ymchwil hwn hefyd ategu gwaith a wnaed gan y Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf (PDG) yng Nghanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, sydd wedi gosod gweledigaeth ar gyfer gwerthoedd, llywodraethu ac arferion gwasanaeth prawf datganoledig yn y dyfodol (Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, 2023).

Mae ein hymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar y **mecanweithiau a'r llwybrau cyflawni** ar gyfer datganoli, gan fynd i'r afael â phedwar prif gwestiwn:

1. Pa fanteision posibl a allai ddeillio o ddatganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru?
2. Pa ddulliau a modelau o gyflawni'r gwasanaeth prawf a allai wireddu manteision posibl datganoli orau?
3. I ba raddau y byddai modd gwireddu'r manteision heb ddeddfwriaeth sylfaenol?
4. Pa ystyriaethau anneddfwriaethol y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatganoli'r gwasanaeth prawf, a sut y gellid mynd i'r afael â nhw?

Comisiynwyd ein gwaith cyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, yn unol ag ymrwymadau Plaid Lafur y DU, rydym wedi cymryd yn ganiataol, pe bai'r gwasanaeth prawf yn cael ei ddatganoli, y byddai yn y lle cyntaf naill ai ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â chyfiawnder ieuenctid yn unig, gyda gweddill y system

cyfiawnder troseddol yn parhau i fod yn bŵer a gadwyd yn ôl. Pe bai datganoli cyfiawnder ymhellach yn mynd rhagddo, byddai angen ailedrych ar y manteision, y cyfaddawdau, a'r ystyriaethau ymarferol yr ydym wedi'u nodi. Yn bwysig, nid ydym yn cymeradwyo dull penodol o ddatganoli'r gwasanaeth prawf ond yn hytrach yn cyflwyno ystod eang o opsiynau i gynorthwyo gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi defnyddio llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd bresennol, ac wedi cynnal cyfweiliadau â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys: i) academyddion ac ymchwilyr yn y DU a thu hwnt; ii) ymarferwyr o Gymru a Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon; a iii) ymarferwyr o wledydd Ewropeaidd eraill. Yn ogystal, cynhaliom ddigwyddiad bord gron ym mis Mai 2024, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr a rhanddeiliaid o'r categorïau uchod, o bob rhan o'r llywodraeth a chynrychiolwyr sefydliadau trydydd sector.¹ Mae ein hymchwyl yn canolbwyntio ar ystyriaethau strategol lefel uchel yn hytrach na swyddogaethau penodol y gwasanaeth prawf (fel gwaith di-dâl neu eiddo cymeradwy). Pe bai datganoli'n mynd rhagddo, byddai'r cwestiynau hyn yn rhan o gynllunio a thrafodaethau yn y dyfodol rhwng llywodraeth y DU (gan gynnwys HMPPS) a Llywodraeth Cymru.

Mae ein hadroddiad yn cynnwys dwy ran. Mae'r adroddiad hwn, sy'n ffurfio **Rhan 1**, yn dechrau drwy archwilio'r setliad presennol a manteision posibl datganoli'r gwasanaeth prawf. Mae hefyd yn archwilio ystyriaethau ymarferol y bydd angen mynd i'r afael â nhw ochr yn ochr â datganoli, gan gynnwys llywodraethu, y gweithlu, a goruchwyllo. Yna, rydym yn cyflwyno opsiynau gwahanol ar gyfer datganoli, gan nodi tri phosibilrwydd a'r cyfleoedd a'r cyfaddawdau sy'n cyd-fynd â hynny.

Mae **Rhan 2** yn archwilio sut mae gwahanol wledydd Ewropeaidd yn trefnu eu systemau prawf, gydag astudiaethau achos sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

¹ Cafwyd cymeradwyaeth foesebol ar gyfer y prosiect hwn gan Bwyllgor Moeseg Ymchwyl Ysgol Busnes Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cyd-destun a manteision datganoli

Nid yw'r Gwasanaeth Prawf wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd ac fe'i gweithredir fel rhan o system gyfiawnder Cymru a Lloegr, yn benodol fel rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae cyfiawnder troseddol yn gweithredu yng Nghymru a datblygiadau diweddar o fewn y gwasanaeth prawf ledled Cymru a Lloegr, cyn archwilio'r manteision posibl a allai ddeillio o ddatganoli'r gwasanaeth prawf.

Y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

Cymru yw'r unig wlad ddatganoledig yn y DU sydd heb gyfrifoldeb am gyfiawnder na'i hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun. Mae wedi bod yn rhan o awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol â Lloegr ers Deddfau Cyfreithiau Cymru 1535 a 1542, a oedd yn atodi Tywysogaeth Cymru ac Arglwyddiaethau'r Gororau i Deyrnas Lloegr, gan ymestyn cyfraith Lloegr i Gymru. Er bod cyfreithiau a oedd yn berthnasol i Gymru yn unig neu'n benodol wedi bod ers hynny, gan gynnwys deddfwriaeth arwyddocaol fel datgysylltu'r Eglwys (Anglicanaidd) yng Nghymru a Deddfau'r Iaith Gymraeg 1967 a 1993, dim ond ar ôl datganoli pwerau deddfu sylfaenol yn 2011 y mae corff penodol o gyfreithiau Cymreig wedi dod i'r amlwg.²

Yn dilyn datganoli pwerau deddfu sylfaenol, bu nifer o gomisiynau'r llywodraeth sydd wedi ystyried a ddylai pwerau pellach gael eu datganoli i Gymru. Argymhellodd Comisiwn Silk, a arweiniodd at Ddeddfau Cymru 2014 a 2017, ddatganoli plismona a chyfiawnder ieuenctid yn rhan ll o'i adroddiad (Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, 2014). Argymhellodd hefyd ddatganoli carchardai a'r gwasanaeth prawf yn dilyn datganoli plismona ac awgrymodd adolygiad ar ddatganoli gweinyddiaeth cyfiawnder ac, yn y pen draw, datganoli deddfwriaethol llawn. Yn yr un modd, eiriolodd Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru dros ddatganoli cyfiawnder yn llawn i Gymru (Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019). Safbwynt Llywodraeth Cymru yn dilyn yr argymhellion hyn fu 'mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlismona' (Llywodraeth Cymru, 2022: 8).

² Roedd cyfreithiau a oedd yn berthnasol i Gymru yn benodol cyn datganoli yn perthyn yn bennaf i ddau gategori: y rhai a ddylanwadwyd gan gyfansoddiad crefyddol hanesyddol anghydfurfiol Cymru (fel rheoleiddio yfed ar y Sul neu ddatgysylltu) ac, yn enwedig yn ddiweddarach yn yr 20^{fed} ganrif, y rhai sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae un rheswm dros fynd ar drywydd datganoli cyfiawnder yn ymwneud â'r hyn a elwir yn 'ymylon anwastad' system cyfiawnder troseddol bresennol Cymru. Dyma'r 'cymwyseddau a chyfrifoldebau croestoriadol a rennir rhwng dwy lywodraeth [y DU a Chymru] gyda blaenoriaethau gwleidyddol gwahanol ac sy'n atebol trwy fandadau etholiadol gwahanol' (Jones a Wyn Jones, 2022: 8). Mae'r ymylon anwastad hyn yn cael eu cymhlethu ymhellach, dadleua Jones a Wyn Jones, gan y ffaith bod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn gwneud Llywodraeth Cymru yn rhan 'anhepgor' o'r system cyfiawnder troseddol (2022: 86). Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys atal trosedd a diogelwch cymunedol ochr yn ochr ag iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn, ynghyd â deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, yn creu system cyfiawnder troseddol *de facto* Gymreig gydag awdurdodaeth Cymru a Lloegr *de jure*.

Mae'r achos dros ddatganoli cyfiawnder deddfwriaethol llawn, a manteision posibl hynny, yn cael eu hystyried mewn man arall, ac nid ydym yn eu hystyried yn fanylach yma; nid ydym ychwaith yn ystyried yn fanwl unrhyw resymau dros wrthwynebu datganoli o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd datganoli cyfiawnder yn mynd rhagddo fesul cam. Awgrymodd Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog ar y pryd, mai'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuencid yw'r 'meysydd o'r system cyfiawnder troseddol sydd agosaf at y cyfrifoldebau sydd eisoes wedi'u datganoli a lle y gallem wneud y gwahaniaeth mwyaf uniongyrchol' (Drakeford, 2019). Mae Vaughan Gething ac Eluned Morgan, yn eu rolau fel Prif Weinidogion, wedi mynegi ymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli'r gwasanaeth prawf i ryw raddau.

Roedd manifesto Plaid Lafur y DU ar gyfer Etholiad Cyffredinol Gorffennaf 2024 yn ymrwymo i:

- 'Ystyried' datganoli cyfiawnder ieuencid i Gymru; ac
- 'Archwilio datganoli gwasanaethau' fel rhan o adolygiad strategol o'r system brawf (Y Blaid Lafur, 2024: 112).

Fodd bynnag, nid oedd y manifesto yn ymrwymo i ddatganoli plismona na chyfiawnder ac awgrymwyd yn flaenorol na fyddai'r rhain yn cael eu datblygu (Deans, 2024). Yn y cyd-destun hwn, mae'n debygol y bydd datganoli'r gwasanaeth prawf yn digwydd i ddechrau o fewn system cyfiawnder troseddol Cymru a Lloegr a gadwyd yn ôl yn bennaf.

Y gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr

Mae'r gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy'r Gwasanaeth Prawf, asiantaeth weithredol a noddur gan HMPPS. Ffurfiwyd y Gwasanaeth Prawf yn dilyn ailuno a gwladoli'r system, a oedd wedi'i darparu'n breifat i raddau helaeth ers 2014.

O dan y Gwasanaeth Prawf, mae Cymru yn un o ddeuddeg rhanbarth ar draws Cymru a Lloegr, a oruchwylir gan Gyfarwyddwr Rhanbarthol. Fe'i rhennir ymhellach yn chwe Uned Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf: Gogledd Cymru, Dyfed Powys, Abertawe Castell-nedd Port Talbot, Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, a Gwent (Gwasanaeth Prawf, 2021).

Mae gan y gwasanaeth dri chyfrifoldeb craidd: adsefydlu, goruchwyllo, a rheoli risg (Beck a McGinnis, 2022). Mewn cyd-destun Cymreig, dadleuir mai un o brif nodau gwasanaeth prawf ddylai fod dargyfeirio pobl oddi wrth ddedfrydau o garchar, yn enwedig gan fod gan Gymru a Lloegr un o'r cyfraddau carcharu uchaf yng Ngorllewin Ewrop (Fair a Walmsley, 2024). Mae rhywfaint o waith academiaidd sy'n dadgyfuno data o Gymru a Lloegr yn dangos bod gan Gymru gyfradd carcharu uwch yn y wlad na Lloegr a phoblogaeth fwy o garcharorion yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref datganedig (Jones, 2023).³

Er mwyn cyflawni'r rolau hyn yn effeithiol, mae gwasanaeth prawf sy'n gweithredu'n dda yn gofyn am integreiddio agos ag asiantaethau y tu hwnt i'r system llysoedd, gan gynnwys tai, cyflogaeth, addysg, llesiant, a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod llywodraeth y DU yn cadw cyfrifoldeb am y gwasanaeth prawf yn arwain at orgyffwrdd sylweddol rhwng gwasanaethau a ddarperir ar lefel leol, datganoledig a chenedlaethol y DU (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019).

Yn hanesyddol, roedd swyddogion prawf yn swyddogion y llysoedd ac yn cynnal perthnasoedd proffesiynol cryf gyda'r farnwriaeth, yn enwedig ynadon. Mae rhanddeiliaid wedi gweld hyn fel mantais arbennig o drefniadau prawf blaenorol y DU, gan ei fod yn galluogi meithrin perthnasoedd gwaith agos ac wedi arwain at lefel uchel o hyder yn y gwasanaeth prawf ar ran dedfrydwyr. Fodd bynnag, yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae'r Gwasanaeth Prawf wedi mynd trwy newid sefydliadol sylweddol, gan gynnwys y cynnig i greu Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r integredig o'r dechrau i'r diwedd gan adolygiad Carter (Carter, 2003). Roedd hyn yn adlewyrchu'r angen canfyddedig i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflwyno 'cystadleugarwch' trwy sefydliadau preifat neu drydydd sector. Yn dilyn hynny, cafodd y gwasanaeth prawf ei breifateiddio'n rhannol dan lywodraeth y Glymblaid, gyda throseddwy'r 'risg uchel' yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, tra bod 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar dendr yn gyfrifol am droseddwy'r eraill. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y model hwn wedi cael effaith negyddol ar ymataliad yn y rhai a ystyriwyd yn risg uchel a chanfyddiadau

³ Gallai nifer o ffactorau ychwanegol ddylanwadu ar leoliad gwrandawriadau llys a dedfrydu, ac nid yw cyfeiriadau cartref yn cael eu cofnodi ar gyfer pob carcharor (er eu bod ar gyfer 97% ohonynt). Mae'r ffactorau hyn a ffactorau eraill, gan gynnwys y ffaith nad yw data'n cael eu dadgyfuno gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn golygu na ellir ystyried y ffigurau hyn yn gwbl sicr.

datblygedig o flaenoriaethau a galluoedd y ddau gorff (Kay, 2016). Y rhesymeg dros symud i system brawf a ddarperir yn breifat yn rhannol oedd cynyddu arferion arloesol yn y sector, ond ni wireddwyd hyn ar y raddfa a fwriadwyd (Pwyllgor Cyfiawnder, 2021; Tidmarsh, 2020). Yn 2021, yn dilyn ailuno ac ailwladoli, rhoddwyd y Gwasanaeth Prawf cyfan o dan HMPPS.

Yn ogystal â'r rhesymeg cystadleugarwch a grybwyllwyd uchod, cafodd carchardai a'r gwasanaeth prawf eu huno'n wreiddiol i gydgyssylltu'r gwaith o reoli troseddwyd yn well, a oedd wedi'i ystyried yn dameidiog, ac i gynnig gwell gwerth am arian a hyblygrwydd cyllidebol ar draws carchardai a'r gwasanaeth prawf (Garside, 2004). Fodd bynnag, nid yw'r syniad bod carchardai a gwasanaethau prawf ill dau yn ymwneud â rheoli troseddwyd ac felly wedi'u gosod yn dda gyda'i gilydd yn sefydliadol bob amser yn adlewyrchu canfyddiad y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf. Mae barn hirsefydlog wedi bod y gwasanaeth prawf yn bodoli i ddarparu dewisiadau eraill yn lle carcharu neu hyd yn oed chwarae rôl gwrth-garcharu yn y system cyfiawnder troseddol (Gough, 2005). Mae rhai ymarferwyr prawf ac undebau llafur yn credu bod integreiddio'r gwasanaeth prawf â'r gwasanaeth carchardai mewn perygl o gynnwys y gwasanaeth prawf i ddiwylliannau sefydliadol ehangach sy'n canolbwyntio mwy ar ddulliau carcharu o reoli troseddwyd (NAPO Cymru, 2018). Hefyd, mae rhai yn teimlo bod uno â charchardai wedi niweidio perthynas y gwasanaeth prawf â'r llysoedd a'r farnwriaeth.

Yn ehangach, gallai datganoli roi cyfle i gryfhau presenoldeb y gwasanaeth prawf mewn cymunedau lleol (Raynor a Deering, 2023). Mae ymchwil a chanfyddiadau gan rai cyfweleion yn awgrymu mai diffyg hyder barnwrol ym mherfformiad y Gwasanaeth Prawf sy'n gyfrifol am ostyngiad yn nifer y dedfrydau cymunedol (Rowland, 2024a). Mae lefelau staffio isel a llwythi gwaith uchel yn faterion hanesyddol i'r Gwasanaeth Prawf, gyda llawer o swyddogion prawf yn ymdrin â 'llwythi achosion na ellir ymdopi â hwy' (Pwyllgor Cyfiawnder, 2021: 34). Mae tystiolaeth bresennol yn dangos cysylltiad cryf rhwng llwythi achosion a chanlyniadau ar gyfer y rhai a oruchwylir gan y gwasanaeth prawf (Raynor a Deering, 2023). Mae ymchwil i werthoedd ymarferwyr yn amlygu ymrwymiad i bwyslais traddodiadol ar waith cymdeithasol ac adsefydlu, fodd bynnag, awgrymir y byddai hyn yn cael ei wneud yn fwy anodd o ystyried parhad yr amodau gwaith negyddol yn yr amgylchedd presennol (Raynor a Deering, 2023; Deering et al., 2023).

Mae'r gwasanaeth prawf yn wynebu nifer o heriau sylweddol ar hyn o bryd. Cyn etholiad cyffredinol y DU, rhybuddiodd arbenigwyr fod y gwasanaeth prawf 'dan bwysau peryglus' ac nad oedd ganddo'r gallu i reoli troseddwyd presennol yn effeithiol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu goruchwyllo am ddwy ran o dair o gyfnod eu trwydded yn unig (Rowland, 2024b). O fewn HMPPS, mae cyfraddau cadw gwael a throsiant staff uchel yn faterion a gydnabyddir, ac mae perfformiad Unedau Cyflawni Prawf yn dirywio (Rowland, 2024a). Mae carchardai bron yn llawn, a bydd

newidiadau diweddar sy'n golygu bod carcharorion yn cael eu rhyddhau'n awtomatig ar ôl 40% o dymor eu dedfryd yn hytrach na 50% yn cynyddu llwyth achosion y gwasanaeth prawf yn sylweddol yn y tymor byr (Kersley, 2024).

Manteision posibl datganoli

Mae dau brif reswm dros fynd ar drywydd datganoli'r gwasanaeth prawf: fel rhan o agenda adeiladu cenedl ehangach, neu i roi polisïau ar waith sy'n gwella perfformiad y swyddogaeth brawf yng Nghymru yn well. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar yr olaf, ac felly rydym yn ystyried manteision posibl datganoli fel y rhai sy'n: i) gwella'r cydgysylltu ag agweddau datganoledig ar wasanaeth cyhoeddus Cymru; neu ii) rhoi'r cyfle i ddiwygio'r gwerthoedd, y model gweithredu a'r amodau gwaith o fewn gwasanaeth prawf datganoledig.⁴

Rhyngwyneb gwell ag agweddau datganoledig gwasanaeth cyhoeddus Cymru

Mae'r manteision hyn yn mynd i'r afael ag ymylon anwastad y setliad presennol. Mae datganoli'r gwasanaeth prawf yn cynnig cyfle i gefnogi gwell cydgysylltu a gweithio ar y cyd rhwng gwasanaeth prawf Cymreig a gwasanaethau eraill sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru.

Yn benodol, gallai hyn adeiladu ar bartneriaethau presennol gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, gan ganiatáu ar gyfer dull mwy ymatebol o ran anghenion lleol drwy gynnwys partneriaid lleol wrth ddarparu gwasanaethau. Gallai cydweithredu gwell â rhanddeiliaid a phartneriaid lleol helpu i ddarparu gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar anghenion troseddswyr a lleihau'r siawns o aildroseddu. Gall perthynas sy'n gweithio'n dda rhwng y gwasanaeth prawf a'r asiantaethau eraill hyn helpu i gynnig cymorth cyfannol i droseddswyr (Raynor a Deering, 2023). Mae'r gwasanaeth prawf eisoes yn cydweithio ag asiantaethau o dan gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ieuchyd, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, addysg, tai, ac agweddau ar gymorth cyflogaeth. Gallai datganoli gryfhau'r cysylltiadau pwysig hyn, gyda'r gallu i ganolbwyntio adnoddau'n well i gynnig gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion troseddswyr mewn gwahanol feysydd (Borja et al., 2023). Er enghraifft, gellid addasu cynlluniau gwaith di-dâl i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol yn ardal leol troseddswr (Llywodraeth Cymru, 2024).

⁴ Mae ystyried rhinweddau neu anfoneision datganoli'r gwasanaeth prawf at ddibenion adeiladu cenedl y tu allan i'n cylch gwaith, er, os mai dyna'r sail resymegol, yna bydd angen rhoi pwysau gwahanol i rai o'r pynciau a godir yn y papurau hyn.

Yn ogystal â thargeddu adnoddau, gallai datganoli hefyd hwyluso'r posibilrwydd o gydleoli gwasanaethau. Gallai hyn adeiladu ar bartneriaethau a chynlluniau peilot presennol megis prosiect Grand Avenues yn Nhrelái a Chaerau, Caerdydd, sy'n ceisio darparu gwasanaethau prawf yn lleol drwy hybiau cymunedol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau eraill megis sefydliadau elusennol, cyfleoedd dysgu, a mynediad at wasanaethau cymunedol. Rydym wedi clywed bod awdurdodau lleol yn gweld manteision y dull hwn, yn enwedig o ran gallu defnyddio dull cyfannol o ran rheoli troseddwr yn y gymuned, gan olygu y gallai hyn gael ei ffurfioli mewn system ddatganoledig.

Gallai datganoli alluogi gwell cysylltiadau â pholisi presennol Cymru, gan gynyddu aliniad o bosibl ag uchelgeisiau polisi Cymru a ffyrdd o weithio, yn enwedig pe bai dull ymatal yn cael ei fabwysiadu.

Mae Gwasanaeth Prawf y DU eisoes yn cael ei wahodd i gyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n ymddangos ei fod yn bresennol pan fo'n bosibl, sy'n awgrymu bod rhywfaint o waith partneriaeth yn bodoli eisoes y gellid ei wella drwy ddatganoli. Byddai gwasanaeth prawf Cymreig, os caiff ei sefydlu fel corff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, â gofyniad arno i weithredu yn unol â'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Gall hefyd ddod o dan glych gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion archwilio.

Gallai datganoli hefyd gynyddu gweithio mewn partneriaeth mewn meysydd fel cydlyniant cymunedol (y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt) a diogelwch cymunedol (sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, ond yn rhyngweithio â phwerau cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl). Mae peth ymchwil yn awgrymu nad yw Partneriaethau Diogelwch Cymunedol presennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallent, yn rhannol oherwydd cymhlethdodau gweithredu ar yr ymylon anwastad (Rabaiotti a Harrison, 2023). Gallai datganoli roi cyfle i resymoli a diwygio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y partneriaethau hyn a thrwy hynny wella eu heffeithiolrwydd.

Y potensial i newid gwerthoedd, model gweithredu ac amodau gwaith

Mae'r manteision hyn yn cynnig y potensial ar gyfer gwasanaeth prawf datganoledig i fynd i'r afael â diffygion canfyddedig yn y model darparu prawf presennol dros gyfnod hwy. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r amodau gwaith y mae swyddogion prawf yn eu hwynebu ar hyn o bryd a'r gwerthoedd a'r model gweithredu y gallai gwasanaeth prawf Cymreig eu mabwysiadu.

Mae amodau gwaith yn fater cydnabyddedig o fewn y gwasanaeth prawf. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn awgrymu cyfradd swyddi gwag o 28.3% yn rhanbarth

Cymru o Wasanaeth Prawf y DU (Arolygiaeth Prawf EF, 2023).⁵ Mae cadw staff, cyfraddau uchel o absenoldeb oherwydd salwch, a phwysau llwyth gwaith i gyd yn faterion sylweddol yn y gwasanaeth presennol, ochr yn ochr â chyfradd ymddiswyddo uchel – yn enwedig ymhlith staff profiadol – a chanran nodedig o absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (Arolygiaeth Prawf EF, 2023: 19). Mae dadansoddiad yn awgrymu bod y materion hyn yn cyfrannu at berfformiad a darpariaeth gwasanaeth gwael (Rowland, 2024a).

Gyda mwy o recriwtio a dychweliad i ddarpariaeth gyhoeddus, teimlir bod llwythi achosion wedi lleihau o gymharu â phan ymgwymerwyd â'r ddarpariaeth gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (Arolygiaeth Prawf EF, 2023). Fodd bynnag, mae 68% o swyddogion prawf a 62% o swyddogion y gwasanaeth prawf yn dal i deimlo bod eu llwyth achosion yn anhydrin i ryw raddau (Arolygiaeth Prawf EF, 2023).⁶ Mae cyfraddau uchel o swyddi gwag yn cyfrannu at fwy o lwythi achosion, a hynny weithiau'n sylweddol (Kersley, 2024). Ym mis Mawrth 2022, llwyth achosion cyfartalog swyddogion prawf oedd 34; mewn cyferbyniad, y llwyth achosion cyfartalog ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cyfiawnder yn yr Alban oedd 27.4 yn 2022 (Y Farwnes Scott o Bybrook, 2022; Miller a Barrie, 2022).⁷

Mae arolygon gwerthoedd ymarferwyr yn dangos ymrwymiad i fodelau prawf mwy adsefydlol, seiliedig ar berthnasoedd, sy'n gysylltiedig ag ethos gwaith cymdeithasol ehangach, sy'n ymestyn y tu hwnt i baradeimau rheoli troseddwr 'syml' (Raynor a Deering, 2023:17). Byddai adfer cysylltiad rhwng gwaith prawf a gwaith cymdeithasol – er enghraifft, drwy adfer y gofyniad i swyddogion prawf feddu ar gymhwyster gwaith cymdeithasol – yn gam y gallai Llywodraeth Cymru ddewis ei gymryd i atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn. Byddai hyn hefyd yn helpu i annog symudedd rhwng y gwasanaeth prawf a gwaith cymdeithasol, gan annog cyfnewid arferion da rhwng disgyblaethau. Fodd bynnag, byddai angen rheoli proses o'r fath yn ofalus yng ngoleuni'r cymwysterau o fewn y gweithlu presennol. Yn ogystal, gellid ehangu enghreifftiau o arfer da megis Rheoli Troseddwr Integredig ar ôl ailuno, er y byddai hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol (Maguire et al., 2024).

Mae dull mwy perthynol tuag at y gwasanaeth prawf hefyd yn bresennol yn y model gweithredu targed ar ôl ailuno, sy'n ymgysylltu â thystiolaeth ar ddarparu gwasanaeth

⁵ Mae'r gyfradd ganrannol wedi'i chyfrifo gan yr awduron yn seiliedig ar ddata sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddyfynnir.

⁶ Mae swyddogion y gwasanaeth prawf yn goruchwyllo troseddwr risg is ac nid yw'n ofynnol iddynt feddu ar gymhwyster prawf.

⁷ Mae 'gweithwyr cymdeithasol cyfiawnder' yn cyfateb i swyddogion prawf yn yr Alban. Mae llwythi gwaith swyddogion y gwasanaeth prawf yn tueddu i fod yn llawer uwch, gyda 53% â llwythi achosion o 50 neu fwy yn 2022/23 (Arolygiaeth Prawf EF, 2023).

prawf yn effeithiol (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2021).⁸ Mae'r gwerthoedd a'r nodau a amlinellir yn y ddogfen HMPPS wedi cael derbyniad da ar y cyfan, er bod rhywfaint o bryder wedi'i godi ynghylch tensiynau rhwng y gwerthoedd hyn a phwysau dedfrydu a rheoli risg eraill (Deering et al., 2023). Gallai datganoli roi cyfle i wreiddio'r gwerthoedd hyn mewn gwasanaeth Cymreig newydd sy'n weithredol annibynnol ar y system garchardai ac sydd felly o bosibl yn llai agored i bwysau gwrthbwysol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried maint cymharol fach Cymru, sy'n golygu ei bod yn haws gweithredu modelau newydd. At hynny, byddai datganoli'n rhoi'r cyfle i symud oddi wrth yr hyn y mae rhai yn ei weld fel ffocws gormodol ar reoli risg, tuag at fwy o bwyslais ar anghenion ac ymatebolrwydd unigol, trwy newidiadau mewn polisi ac arfer (Raynor a Deering, 2023).

Mae gwerthoedd penodol ar gyfer gwasanaeth prawf Cymreig wedi'u cynnig gan y PDG, gan dynnu ar waith gan y Sefydliad Prawf ac eraill (Deering et al., 2023). Mae'r gwerthoedd hyn yn pwysleisio model prawf sy'n pwysleisio pwysigrwydd dargyfeirio o'r ddalfa mewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, dulliau gweithredu sydd wedi'u llywio gan drawma ac sy'n canolbwyntio ar bobl, a gweld trosedd yn ei gyd-destun cymdeithasol ehangach ochr yn ochr â risgiau i'r unigolyn (Deering et al., 2023). Mae'r ffocws hwn yn rhoi'r set o werthoedd a ddatblygwyd gan y Sefydliad Prawf, a ystyriwyd yn floc adeiladu da ar gyfer datblygiad, yn eu cyd-destun, sy'n adlewyrchu:

- Pwyslais ar adsefydlu, gan dynnu ar y gred yn urddas cynhenid unigolion a'u gallu i newid;
- Cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys drwy oruchwyliaeth gymunedol;
- Hawliau ac anghenion dioddefwyr wrth reoli dedfrydau troseddwy;
- Pwysigrwydd partneriaethau ymchwil a datblygu; datblygiad proffesiynol; a lledaenu arfer gorau; ac
- Ymrwymiad i uniondeb proffesiynol (Deering et al., 2023).

Bwriad y gwerthoedd arfaethedig yn anad dim yw cefnogi 'llwybr ymatal unigolyn' (Deering et al., 2023:10). Mae eraill o fewn y PDG wedi awgrymu ychwanegu at y rhain gyda ffocws ar ddargyfeirio, darparu gwybodaeth am fechnïaeth, ac ymrwymiad i gyfiawnder adferol fel elfennau allweddol o wasanaeth datganoledig.

Mae ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o fewn gwaith presennol Llywodraeth Cymru, er enghraifft y Glasbrintiau a gynhyrchwyd ar gyfer system cyfiawnder ieuencid i Gymru

⁸ Mae'r model gweithredu targed yn gosod disgwyliadau o ran sut y bydd y Gwasanaeth Prawf yn gweithredu yn dilyn diwygiadau sydd ar y gweill yn HMPPS.

yn y dyfodol ac ar gyfer troseddau menywod (Llywodraeth Cymru, 2019a; 2019b). Mae'r Glasbrintiau hyn yn adlewyrchu rhai o'r nodau a'r uchelgeisiau a awgrymwyd ar gyfer gwasanaeth prawf Cymreig, gan awgrymu cytundeb ar nodau tymor hwy, y gellid eu ffurfioli mewn unrhyw setliad datganoli.

Fodd bynnag, byddai i ba raddau y gallai gwasanaeth prawf Cymreig wyro ei hun yn llwyr o amgylch y gwerthoedd hyn yn dibynnu ar y model datganoli penodol a fabwysiadwyd a'r cyd-destun gweithredol ehangach, gan gynnwys cyflwr cyllid cyhoeddus (fel y trafodir yn yr adran ariannu isod).

Ystyriaethau ymarferol

Ar ôl ystyried y cyd-destun ehangach, gan gynnwys y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd, a manteision posibl datganoli, symudwn i ystyried canlyniadau ymarferol datganoli, gan ddechrau gyda meysydd y byddai angen rhoi sylw iddynt mewn unrhyw strategaeth ddatganoli. Mae'r rhain yn cynnwys galluogwyr pragmatig a rhwystrau i sefydlu gwasanaeth prawf Cymreig, yn ogystal â heriau gweithredol o weithio o fewn system cyfiawnder troseddol sydd wedi'i datganoli'n rhannol.

Gweithlu

Mae'r gweithlu prawf yn cael ei gyflogi gan HMPPS fel gweision sifil. Fodd bynnag, mae tâl ac amodau'n amrywio yn dibynnu a oedd staff:

- Wedi'u cyflogi'n flaenorol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol oedd yn cael ei redeg yn gyhoeddus;
- Wedi'u cyflogi'n flaenorol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol y sector preifat neu'r trydydd sector; neu
- Wedi ymuno â'r gwasanaeth ar ôl ailuno.

Yn dibynnu ar y model datganoli a ddilynnir, efallai y bydd staff yn cael eu trosglwyddo o HMPPS i wasanaeth prawf newydd Cymreig neu i strwythur amgen. Os bydd y gwasanaeth prawf Cymreig yn parhau i fod yn rhan o'r gwasanaeth sifil, gallai'r cyfnod pontio hwn fod yn gymharol syml. Fodd bynnag, os yw'r gwasanaeth yn gweithredu y tu allan i'r gwasanaeth sifil – er enghraifft, fel corff hyd braich annibynnol neu led-annibynnol – byddai angen mynd i'r afael â nifer o faterion gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys cyflog, pensiwn, llwyth gwaith, hyfforddiant, cymwysterau mynediad, a chynrychiolaeth gweithwyr, a thrafodir pob un o'r rhain isod.

Strwythur tâl: Byddai'n bwysig creu strwythur tâl newydd ar gyfer y gwasanaeth prawf, yn ddelfrydol ar sail genedlaethol. Mae profiad o'r Alban yn awgrymu, lle mae tâl yn amrywio'n rhanbarthol, y gall fod problemau o ran denu staff i ranbarthau sy'n talu'n is. Yn yr un modd, os yw graddfeydd cyflog yn cael eu gosod yn rhy isel neu ddim yn cael eu sefydlu o gwbl, efallai y bydd staff prawf yn dewis dilyn gyrfaedd gwahanol. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, lle mae angen cymhwyster gwaith cymdeithasol o hyd ar gyfer swyddogion prawf, mae cystadleuaeth gan gyflogwyr gwaith cymdeithasol eraill fel ymddiriedolaethau iechyd wedi cyfrannu at broblemau recriwtio a chadw. Yn ogystal, mae staff prawf presennol yn aml yn cymharu eu cyflog a'u hamodau yn anffafriol â sectorau a rolau eraill sydd â lefelau is o risg a chyfrifoldeb (gan gynnwys manwerthu) (Millings et al., 2023). Ar hyn o bryd, mae

cydfargeinio yn y sector yn bodoli ar lefel genedlaethol, sy'n golygu y gall fod gwahaniaeth o ran cyflog ac amodau o gymharu â Lloegr mewn system ddatganoledig.

Byddai angen ystyried trefniadau pensiwn yn ofalus hefyd pe bai staff yn gadael y gwasanaeth sifil. Ar hyn o bryd mae swyddogion prawf yn cyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddion diffiniedig (sy'n cynnig pensiwn ar gyfradd flynyddol a bennwyd ymlaen llaw yn seiliedig ar reolau'r cynllun). Pe bai'r gwasanaeth prawf yn cael ei ddatganoli a bod asiantaeth newydd yn cael ei sefydlu, byddai angen gwneud trefniadau i ganiatáu mynediad staff i naill ai'r cynllun presennol neu gynllun buddion diffiniedig a ariennir yn yr un modd. Gallai cyflwyno cynllun cyfraniadau diffiniedig, nad yw'n gwarantu incwm ymddeoliad penodol, arwain at ddarpariaethau pensiwn llai hael. Byddai hyn yn debygol iawn o gyflwyno gwrthdaro gydag undebau llafur ac aelodau staff a gwneud gwasanaeth prawf Cymreig yn llai deniadol.

Amgylchiadau gwaith: Canfu ymchwil a oedd yn cynnwys cyfweiliadau â staff presennol yn y Gwasanaeth Prawf fod 'iaith argyfwng yn cael ei defnyddio'n rheolaidd' wrth sôn am sawl agwedd ar y rôl, a diffyg hyder y byddai amodau'n gwella'n fuan (Millings et al., 2023: 341) . Ategwyd hyn gan y llwyth gwaith hynod o uchel a roddir ar staff, sy'n effeithio'n negyddol ar eu hiechyd a'u llesiant. Roedd staff yn ymroddedig ac yn deyrngar i'r hyn yr oeddent yn ei weld fel eu rôl, ond roeddent hefyd yn teimlo'r pwysau sylweddol o reoli risg ac ofn cael eu hamlygu pe byddai rhywun yr oeddent yn ei oruchwylio yn cyflawni Trosedd Pellach Difrifol (Millings et al., 2023).

Mynegwyd pryderon hefyd am nifer y newydd-ddyfodiaid i'r Gwasanaeth Prawf ac a oedd yr hyfforddiant ar gyfer staff newydd yn ddigonol, gan fod cyfleoedd hyfforddi yn y gwaith a mentora yn gyfyngedig oherwydd pwysau llwyth gwaith. Mae dechreuwyr gyrfa gynnar i'r rôl wedi datgan bod realiti'r swydd yn wahanol iawn i'w disgwyliadau, gan atgyfnerthu'r angen i wella amodau a darparu gwybodaeth onest am ofynion y rôl i annog cadw (Millings et al., 2023).

Gan ddibynnu ar y model datganoli a ddewisir, efallai y bydd gwasanaeth prawf Cymreig yn gallu mynd i'r afael ag agweddau ar lwyth gwaith, rheoli risg, a materion hyfforddi. Byddai hyn yn fwyaf effeithiol o dan fodelau datganoli llawnach, er y gallai hyd yn oed modelau sy'n datganoli agweddau penodol ar ddarparu gwasanaethau alluogi rhoi mesurau lliniaru ar waith megis gweithio mwy integredig, rheoli swyddogaethau lefel is, neu hyfforddiant a datblygiad gwell wedi'u teilwra i'r cyd-destun Cymreig. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai hyn yn gofyn am ryw faint o adnoddau ychwanegol neu fuddsoddiad.

Mae dadlau hefyd am y cymwysterau rhagofynnol ar gyfer swyddi yn y Gwasanaeth Prawf. Hyd at 1998, roedd yn ofynnol i swyddogion prawf feddu ar radd mewn gwaith cymdeithasol; yn awr, mae gofyn iddynt gwblhau Cymhwyster Proffesiynol Lefel 6 yn y Gwasanaeth Prawf (PQiP) a ddarperir yn y gwaith (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2022). Mae'n ofynnol i Swyddogion Gwasanaethau Prawf, sy'n darparu adroddiadau cyn-dedfrydu i'r llysoedd ac yn rheoli troseddwyd risg isel i ganolig, feddu ar Ddiploma Lefel 3 mewn Ymarfer Prawf neu fod yn gweithio tuag ato (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2022). Mae'r Grŵp Datblygu Prawf yn eiriol dros adfer gwerthoedd gwaith cymdeithasol (Deering et al., 2023). Gallai opsiynau ar gyfer gweithredu hyn gynnwys hyfforddiant yn y gwaith, ailgyflwyno cymhwyster gwaith cymdeithasol ffurfiol, neu gyfuniad o'r ddau. Mae cymwysterau gwaith cymdeithasol eisoes yn ofynnol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, a gwledydd Ewropeaidd eraill (Notman, Price, a Tilley, 2024).

O ystyried nad oes gan y mwyafrif helaeth o swyddogion prawf presennol gymhwyster gwaith cymdeithasol ffurfiol, byddai angen rheoli'r trawsnewid hwn yn ofalus. Gellid darparu cymwysterau drwy sefydliadau achrededig yng Nghymru, gan adlewyrchu gwerthoedd gwasanaeth datganoledig.

Mae ymchwil ar ddiwygiadau blaenorol i wasanaethau prawf yn y DU yn awgrymu bod staff yn teimlo nad oedd ganddynt lais neu asiantaeth yn ystod y broses, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud heb fawr o ystyriaeth i'r goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau (Millings et al., 2023). Amlygwyd y rhwystredigaeth hon gan staff yn ystod yr ailwladoli, er gwaethaf consensws eang mai dyna'r ffordd gywir o weithredu. Mae sicrhau bod gan staff lais mewn unrhyw broses ddatganoli yn hollbwysig er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a sicrhau ymrwymiad, hyd yn oed os yw staff yn cefnogi datganoli.⁹

Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cyd-destun 'blinder newid' canfyddedig ymhlith staff. Er i ni glywed y byddai rhai newidiadau'n cael eu croesawu gan ymarferwyr, yn enwedig o ran adfer gwerth gwaith cymdeithasol neu ddileu'r gwasanaeth prawf o HMPPS, mae hefyd angen clir i reoli newid yn ofalus gan roi ystyriaeth briodol i farn, gobeithion ac ofnau staff a throseddwyd yr effeithir arnynt.

Llywodraethu rhanbarthol

Bydd angen i wasanaeth prawf Cymreig yn y dyfodol benderfynu ar y lefel briodol o lywodraethu rhanbarthol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth a'i

⁹ Bydd cydnabod undebau llafur hefyd yn rhan bwysig o'r broses hon os caiff y gwasanaeth prawf ei gyflawni trwy gorff newydd yng Nghymru.

ddefnyddwyr, ac mewn ffordd sy'n hwyluso rhyngweithio â gwasanaethau cysylltiedig.

Mae tair o'r Unedau Cyflenwi Prawf presennol yn rhanbarth Cymru yn alinio'n bennaf ag ardaloedd heddluoedd (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, a Gwent), tra bod ardal Heddlu De Cymru wedi'i rhannu'n dair uned: Abertawe Castell-nedd Port Talbot, Cwm Taf Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro.

Mae nifer o opsiynau yn bodoli ar gyfer sicrhau aliniad rhwng anghenion gwasanaeth prawf Cymreig y dyfodol a'i ddefnyddwyr. Isod, rydym yn crynhoi dau strwythur sefydliadol cyferbyniol: gwasanaeth prawf unedol gyda threfniadaeth a darpariaeth ranbarthol, a gwasanaeth prawf integredig gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, fel y gwelir yn yr Alban. O fewn pob un o'r strwythurau posibl troswaol hyn mae llawer o wahanol ffyrdd y gellid trefnu'r gwasanaeth prawf.

Mae y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn i ddarparu mewnwelediadau manwl i'r opsiynau gwahanol hyn, a bydd angen gwneud rhagor o waith i'w harchwilio yn dibynnu ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer datganoli.

Gwasanaeth prawf unedol gyda threfniadaeth a chyflawni ranbarthol

Fel yr amlygwyd yn Rhan 2 ein hadroddiad, mae llawer o systemau prawf Ewropeaidd yn gweithredu fel gwasanaeth prawf unedol a gyflawnir ar lefel ranbarthol (Notman, Price, a Tilley, 2024). Mae hyn yn galluogi corff canolog i fod yn gyfrifol am bryderon allweddol a rennir megis hyfforddiant staff, cynllunio strategol, casglu data, a chysylltiadau â Llywodraeth Cymru, HMPPS, a gweithredwyr cenedlaethol eraill, tra bod unedau ranbarthol wedyn yn cael y cyfrifoldeb am y gwaith o ddydd i ddydd o ran rheoli a chyflawni gwasanaethau.

Mae nifer o wrthwynebiadau i'r model hwn wedi'u codi, fodd bynnag, yn arbennig y gallai rwystro cydweithio â phartneriaid lleol pe bai penderfyniadau pwysig ynghylch darparu gwasanaethau'n cael eu gwneud ar lefel genedlaethol.

Mae dod o hyd i'r lefel gywir o ymreolaeth ar gyfer unedau cyflawni ranbarthol o fewn y model hwn yn gofyn am ystyriaeth ofalus o'r manteision a'r cyfaddawdau priodol. Gallai mwy o ymreolaeth ranbarthol ganiatáu ar gyfer gallu ychwanegol i feithrin cysylltiadau lleol cryfach a pherthnasoedd rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddai hyn yn dod ar draul dyblygu ledled Cymru, yn enwedig mewn swyddi rheoli. Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i gysondeb darparu gwasanaeth mewn model gyda mwy

o ymreolaeth, i liniaru gwahaniaethau mewn canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.¹⁰

Mae darparu gwasanaethau is-genedlaethol hefyd yn bosibl gyda mwy o ymreolaeth ranbarthol, gan fanteisio ar ddarpariaeth leol a gwybodaeth o fewn strwythurau rhanbarthol presennol. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at golli'r arbedion maint mwy a ddaw yn sgil model canolog, er y gallai fod yn bosibl gwahanu swyddogaethau y gellid eu cyflawni neu eu rheoli'n rhesymol ar lefel genedlaethol yn erbyn lefel is-genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu allweddol yn cael eu caffael trwy Fframwaith Deiniamig y Gwasanaethau Prawf canolog, a ddatblygwyd yn ystod ailuno'r Gwasanaeth Prawf i wella rôl y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hwn wedi bod yn destun beirniadaeth am fod yn rhy gymhleth, gyda sefydliadau lleol llai yn methu â chasglu'r arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud cais (Johal a Davies, 2022). Fel rhan o'i drefniadau datganoli, nid yw gwasanaethau ym Manceinion Fwyaf yn destun y broses hon ond yn hytrach cânt eu comisiynu ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Prawf ac Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (GMCA), gan ddefnyddio prosesau caffael GMCA. Gallai gwasanaeth a lywodraethir yng Nghymru fabwysiadu arfer tebyg yng Nghymru a byddai'n ofynnol iddo ymgymryd â chaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Gallai ymreolaeth ranbarthol hefyd olygu alinio gwasanaethau prawf â strwythurau presennol. Isod, rydym yn amlygu tri strwythur rhanbarthol presennol y gellid eu defnyddio ar gyfer llywodraethu rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn helaeth ac mae angen gwaith pellach i archwilio opsiynau posibl yn fanylach.

Ardaloedd heddluoedd: Byddai'r dull hwn yn fras yn ailadrodd y trefniadau presennol a amlinellwyd uchod. Mae gan drefnu darpariaeth gwasanaethau datganoledig yn y modd hwn y fantais nodedig o leihau newidiadau strwythurol, gan ganiatáu i'r gweithlu barhau i weithio mewn ffyrdd sefydledig a chario perthnasoedd presennol drosodd. Dylid nodi bod yr arolygiad diweddaraf o wasanaethau prawf yng Nghymru yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y defnydd o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu 'rhagorol' gyda phartneriaid strategol allweddol, er gwaethaf asesiad heriol yn gyffredinol (Arolygiaeth Prawf EF, 2022: 6).¹¹ Fodd bynnag, gallai alinio'r strwythur rhanbarthol presennol â rhanbarthau heddluoedd gael ei ystyried yn

¹⁰ Mae gwahaniaethau mewn canlyniadau yn anochel o fewn unrhyw fframwaith a ddarperir yn lleol, a gallent adlewyrchu blaenoriaethau lleol; gwahaniaethau mewn proffiliau troseddwy; a ffactorau eraill sy'n benodol i ardal megis demograffeg, cyfle economaidd, ac ati. Fodd bynnag, byddai angen cydbwysu'r amrywiad priodol hwn gyda safonau gwasanaeth gofynnol i sicrhau darpariaeth sylfaenol o ran swyddogaethau prawf.

¹¹ Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar arolygiadau o Uned Gyflawni Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot ac Uned Gyflawni Prawf Gwent.

wrthgynhyrchol os nad yw plismona wedi'i ddatganoli, gan y gallai fod yn gyfle a gollwyd i ddatblygu strwythurau rhanbarthol sy'n alinio â gwasanaethau datganoledig o dan gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Serch hynny, gan ei bod yn ymddangos bod y strwythurau presennol yn gweithredu'n gymharol dda, gallai hyn barhau fel mesur interim.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau): Sefydlwyd BPRhau fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i asesu anghenion llesiant, iechyd a gofal mewn poblogaethau lleol. Mae saith BPRh yng Nghymru, wedi'u halinio ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol. Nid yw gwasanaethau prawf yn cael eu cynrychioli ar hyn o bryd, ond gallai eu gosod o fewn yr ôl troed rhanbarthol hwn alinio darpariaeth gwasanaeth ag anghenion gofal cymdeithasol lleol, gan sicrhau bod y gwasanaeth prawf a'r rhai ar brawf yn cael eu cynrychioli mewn cynlluniau i wella llesiant lleol. Fodd bynnag, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u cynllunio'n benodol i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal eu darparu, sy'n golygu efallai na fydd yr ôl troed hwn yn cyd-fynd â daearyddiaeth sefydliadau partner allweddol eraill.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau): Mae Gwasanaeth Prawf y DU eisoes yn cymryd rhan mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ochr yn ochr â gwasanaethau allweddol eraill sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Gallai hyn hybu gwaith partneriaeth da ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, o ystyried yr ystod o wasanaethau sydd eisoes yn rhyngweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. At hynny, mae hwn eisoes yn ofod lle mae gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli eisoes yn rhyngweithio. I ddechrau, roedd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ei BGC ar wahân ei hun, ond ers hynny mae llawer wedi uno i gynrychioli awdurdodau lleol lluosog, gyda'r cyfanswm bellach yn dri ar ddeg. Fodd bynnag, gallai nifer y BGCau arwain at strwythurau sefydliadol tameidiog sy'n ailadrodd rhai o anfoneision darpariaeth awdurdodau lleol heb fanteision cysylltiadau uniongyrchol â gwasanaethau cymdeithasol lleol.

Mae Bwrdd Prawf unedol sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau prawf wedi'i ystyried gan y PDG, ac mae aelodau wedi amlygu'r potensial i gorff o'r fath gynnwys cynrychiolwyr o'r farnwriaeth a llywodraeth leol (gan gynnwys aelodau etholedig) i gefnogi llywodraethu'r gwasanaeth prawf a'i gysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus eraill (Borja et al., 2023).

Cyflawni gwasanaethau prawf drwy awdurdodau lleol

Yn y strwythur hwn, byddai pob awdurdod lleol yn staffio ac yn gweithredu ei wasanaeth prawf ei hun. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer y cydgysylltu mwyaf â gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol megis gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Byddai cyflawni drwy awdurdodau lleol (o

bosibl fel rhan o'r gweithlu gwaith cymdeithasol) yn ailadrodd y sefyllfa yn yr Alban. Byddai'r system hon yn cynnig cyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau'n lleol a chynllunio gwasanaethau i adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Byddai angen gallu canolog ychwanegol (tebyg i Community Justice Scotland) i gynnig canllawiau a safonau statudol i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd y capasiti canolog hwn yn yr Alban, gydag awgrymiadau bod y gwasanaethau a ddarperir yn parhau i fod yn ddatgymalog (Notman, Price, a Tilley, 2024). Mae'r PDG yn argymhell sefydlu Bwrdd Prawf yng Nghymru at y diben hwn, tra'n bod yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch manteision darparu o fewn lleoliad awdurdod lleol (Borja et al., 2023).

Er bod y dull hwn yn boblogaidd gyda rhai rhanddeiliaid, mae risgiau ynghlwm wrth hyn, a rhybuddiodd llawer o'n cyfweleion yn ei erbyn. Risg allweddol yw y gallai swyddogion prawf o fewn sefydliad gwaith cymdeithasol ehangach gael eu hailgyfeirio i dasgau nad ydynt yn rhai prawf os ystyrir bod y rhain yn cael blaenoriaeth neu os gallent wynebu pwysau llwyth gwaith ychwanegol. Mae ffactorau tebyg wedi effeithio ar dimau diogelwch cymunedol mewn awdurdodau lleol, er enghraifft (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn ogystal, mae'r amrywiaeth eang yng nghapasiti awdurdodau lleol yng Nghymru yn golygu y gall llywodraethu lleol fod yn anwastad ac, mewn rhai ardaloedd, yn annigonol ar gyfer arfer effeithiol. Gallai adnoddau canolog ganiatáu ar gyfer cyllid priodol ar gyfer staff rheng flaen, ond byddai angen i swyddogaethau cymorth, yn ogystal â goruchwyllo strategol a llywodraethu, ddod o fewn awdurdodau lleol ac felly byddent yn cystadlu â meysydd eraill o lywodraeth leol am gyllid a blaenoriaethu. Mae hyn yn risg arbennig yng nghyd-destun hinsawdd ariannol anffafriol i awdurdodau lleol, gyda chanolfannau corfforaethol awdurdodau lleol (sy'n darparu arweinyddiaeth strategol a dadansoddiad polisi) yn dioddef yn benodol. Mae'n bosibl felly y bydd angen clustnodi cyllid ar gyfer y gwasanaeth prawf fel rhan o ddyraniadau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y gwasanaeth ac osgoi effeithiau negyddol ar ganlyniadau, er y byddai hyn yn lleihau'r hyblygrwydd sy'n gryfder allweddol yn y model cyflawni hwn.

Mae'r dull hwn yn fwy dyblyg na'r opsiynau a amlinellwyd uchod, o ystyried nifer y sefydliadau ar wahân sy'n darparu'r gwasanaeth prawf, pob un â'i uwch reolwyr a'i reolwyr canol ei hun. Fodd bynnag, gallai swyddogaethau fel adnoddau dynol a chyllid, a fyddai fel arall angen rolau newydd mewn corff unedig, gael eu cynnwys yn swyddogaethau presennol awdurdodau lleol. Ym maes cyfiawnder ieuenctid, mae sawl awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu Timau Troseddau Ieuenctid ar y cyd, sy'n lleihau dyblygu, ond gallai hyn ddileu'r opsiwn o ddarparu gwasanaeth prawf

drwy'r gwasanaethau cymdeithasol presennol, sef un o brif fanteision y strwythur hwn.¹²

Os dilynir yr opsiwn hwn, byddai angen rhoi rhaglen meithrin gallu ar waith i sicrhau bod adnoddau digonol a hyfforddiant staff ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth prawf Cymreig yn effeithiol.

Rheolaeth a goruchwyllo

O dan ddatganoli gweithrediaeth neu ddeddfwriaethol, byddai rheolaeth a goruchwyllo gwasanaeth prawf Cymru yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, byddai angen creu strwythurau sy'n hwyluso goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth prawf.

Byddai angen i strwythurau goruchwyllo fynd i'r afael ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys meincnodi perfformiad gwasanaethau, rheoleiddio proffesiynol staff prawf, sicrhau aliniad polisi, cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol, a chraffu ar Weinidogion cyfrifol gan y Senedd. Mae cwestiwn heb ei ateb hefyd ynghylch pa Weinidog a fyddai'n gyfrifol am oruchwyllo a chyfeiriad unrhyw wasanaeth prawf datganoledig, a all ddibynnu ar ba un a yw agweddau eraill ar y system cyfiawnder troseddol, os o gwbl, wedi'u datganoli hefyd.

Gall Llywodraeth Cymru ddewis cadw rhai swyddogaethau presennol sy'n bodoli o fewn y Gwasanaeth Prawf presennol, naill ai drwy optio i mewn neu gomisiynu gan ddarparwyr presennol. Gallai wneud synnwyr, er enghraifft, i gadw'r defnydd o Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer gwasanaeth prawf Cymreig yn y tymor canolig yn hytrach na dyblygu'r swyddogaeth gyda chostau sefydlu cysylltiedig a chostau rhedeg cyfrannol uwch.

Byddai tynnu ar ddarpariaethau presennol lle bo'n briodol yn helpu i leihau'r aflonyddwch a'r costau sy'n gysylltiedig ag adeiladu strwythurau sefydliadol newydd. Fodd bynnag, byddai hefyd yn lleihau gallu Llywodraeth Cymru neu'r Senedd i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddiwylliant neu werthoedd sefydliadol cyrff o'r fath, a allai fod yn bwysig os oes newid hirdymor mewn gwerthoedd o fewn unrhyw wasanaeth prawf Cymreig. Gall penderfyniadau ar gyrff goruchwyllo perthnasol hefyd ddibynnu ar strwythur unrhyw wasanaeth prawf datganoledig: er enghraifft, mae swyddogaethau arolygu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn adlewyrchu'r systemau gwaith cymdeithasol a chyfiawnder troseddol ehangach y maent yn gweithredu ynddynt (Borja et al., 2023).

¹² Mae eraill, fodd bynnag, wedi pwysleisio y gallai dysgu gwersi gan Dimau Troseddau Ieuenctid fod yn addysgiadol, yn enwedig os yw'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid wedi'u cysylltu'n well mewn system ddatganoledig, er enghraifft gyda dulliau trosiannol ar gyfer y rhai sy'n symud i'r gwasanaeth prawf yn 18-25 oed.

Gallai swyddogaethau archwilio a goruchwyllo a gyflawnir gan Archwilio Cymru gael eu cymhwyso i wasanaeth prawf datganoledig, pe bai'n cael ei sefydlu fel corff cyhoeddus ar wahân, er y gallai fod angen deddfwriaeth ychwanegol ar hyn.

Gallai swyddogaethau eraill, megis rheoleiddio proffesiynol neu feincnodi perfformiad, gael eu trin yn fewnol gan y gwasanaeth prawf Cymreig (os caiff ei sefydlu fel corff statudol ar wahân) neu gan Weinidogion Cymru neu gorff a sefydlwyd ganddynt. Awgrymodd y PDG nifer o sefydliadau ar wahân y gallai fod angen eu sefydlu i ddarparu goruchwyllo a dylanwadu ar arfer, gan gynnwys arolygiaeth, Bwrdd Prawf, Grŵp Cyngori'r Gwasanaeth Prawf, a grwpiau cyngori lleol (Borja et al., 2023). Mae'n debygol mai'r setliad datganoli a pharodrwydd a gallu Llywodraeth Cymru i ariannu cyrff o'r fath fyddai'n pennu'r angen dybryd i sefydlu'r cyrff hyn. Gall fod yn haws ac yn rhatach i ailadrodd y trefniadau presennol yn y tymor byr, yn enwedig os dewisir opsiwn anneddfwriaethol ar gyfer datganoli.

Cyllid

Mae'n debygol y byddai datganoli gweithrediaeth neu ddeddfwriaethol yn cyd-fynd â rhywfaint o ymgodiad i grant bloc Llywodraeth Cymru. Yn ogystal ag adlewyrchu costau darparu gwasanaethau, awgrymwyd y gallai rhai o gostau cyfalaf datganoli gael eu hariannu gan lywodraeth y DU, yn enwedig yng nghyd-destun datganoli cyfiawnder llawn (Ifan, 2019).

Er y byddai union gyfradd y cyllid yn destun trafodaeth, byddai'n rhesymol gweithio ar y sail y byddai'n adlewyrchu gwariant presennol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru ar staff rheng flaen (ar lefelau staffio llawn), ystadau, a chostau refeniw eraill. Mae hefyd yn rhesymol tybio y gallai Cymru sicrhau rhywfaint o gyllid ar gyfer y costau 'cychwyn' ychwanegol a wynebwr wrth sefydlu gwasanaethau newydd.

Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y byddai'r cyllid gan lywodraeth y DU yn talu'r gost lawn o ddarparu gwasanaeth prawf Cymreig dros amser. Mae dau brif gategori lle gall gwariant ychwanegol godi: costau uwch o fewn y gwasanaeth prawf ei hun, a chostau sefydliadol, megis y rhai sy'n gysylltiedig â gweinyddu a llywodraethu. Bydd costau untro hefyd yn gysylltiedig â sefydlu gwasanaethau a chyrff newydd.

Gellir tybio'n ddiogel, ar adeg datganoli, y byddai'r gofynion staffio presennol yn cael eu hariannu ar gapasiti o 100% (er gwaethaf y gyfradd uchel o swyddi gwag yn y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru ar hyn o bryd). Fodd bynnag, byddai angen cyllid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu capasiti ychwanegol. Yn y tymor byr, byddai hyn yn golygu cyllid o'r cyllidebau presennol. Pe bai model cyflawni mwy lleol, megis darpariaeth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn cael ei fabwysiadu, byddai angen i Lywodraeth Cymru ddrynnu rhywfaint o'r cyllid hwn. Gellid clustnodi'r cyllid hwn i ddarparu gwasanaethau prawf ond gellid ei ddarparu hefyd gan ddefnyddio'r mecanweithiau cyllidebol presennol. Yn y naill achos neu'r llall, mater i

bob asiant cyflawni lleol fyddai penderfynu ar y defnydd gorau posibl o arian, gan arwain o bosibl at fwy neu lai o staff yn yr ardaloedd hynny.

Gallai'r model sefydliadol a ddewiswyd ar gyfer system brawf ddatganoledig hefyd gael sgil-ffeithiau ar gyllid. Yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r bwrdd prawf ar wahân i'r gwasanaeth sifil, mae'r dyraniad cyllid yn cynnwys costau fel ystadau, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar staffio a darparu gwasanaethau (Notman, Price, a Tilley, 2024). O ganlyniad, nid oes cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, ac mae'n rhaid i Fwrdd Prawf Gogledd Iwerddon gystadlu am gyllid â meysydd eraill o wariant y llywodraeth, gan gyfrannu at gyfyngiadau hirsefydlog ar gapasiti staffio ac arloesi mewn ymarfer.

Mae nifer o resymau pam y gallai fod angen capasiti ychwanegol ar wasanaeth Cymreig datganoledig. Yn gyntaf, mae gan Gymru gyfradd carcharu uwch na Lloegr, o ran carcharu 'o fewn gwlad' a charcharu yn ôl cyfeiriad cartref (Jones, 2023). Mae cyfraddau prawf hefyd wedi bod yn gyson uwch yng Nghymru ers 2014 (Jones, 2023). Mae hyn yn creu galw ychwanegol ond gallai hefyd greu costau ychwanegol, yn enwedig gan nad yw pob carcharor o Gymru yn cael ei garcharu yng Nghymru (gweler isod). At hynny, disgwylir i bwysau ar y Gwasanaeth Prawf ddwysau yn y blynyddoedd i ddod oherwydd cynllun rhyddhau carcharorion yn gynnar gan lywodraeth y DU (Kersley, 2024).

Yn ail, efallai y bydd awydd i gynyddu capasiti o fewn y system i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodir uchod. Byddai angen ariannu codiadau cyflog neu newidiadau i amodau gwaith hefyd. Er y byddai bargeinion cyflog yn Lloegr yn arwain at symiau canlyniadol Barnett, nid yw'r rhain wedi'u neilltuo ac ni fyddent yn cyfateb i setliadau cyflog Cymru os yw'r rhain yn fwy na'r rhai yn Lloegr. Mae lle i gredu felly y byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer staff rheng flaen.

Byddai costau hefyd yn gysylltiedig â swyddogaethau 'ystafell gefn' megis cymorth gweinyddol, cyllid ac AD. Gallai rhai o'r rolau hyn, yn enwedig y rhai sydd eisoes ar waith yn rhanbarth Cymru o'r Gwasanaeth Prawf, drosglwyddo drosodd; ond bydd angen sefydlu capasiti ychwanegol i gefnogi swyddogaethau a reolir yn ganolog ar hyn o bryd. Gallai sefydlu gwasanaeth Cymreig newydd llai arwain at golli rhai arbedion maint, gan gynyddu cost gymharol y rolau hyn. Dangosodd profiad blaenorol o ddatganoli nawdd cymdeithasol i'r Alban fod nifer y staff a'r cyllid cysylltiedig yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol (Audit Scotland, 2022). At hynny, mewn modelau cyflawni lleol, gallai'r golled mewn arbedion maint fod hyd yn oed yn fwy oherwydd dyblygu rolau swyddi.

O ran costau sefydliadol, byddai angen datblygu capasiti o fewn Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill i reoli swyddogaethau gweinyddol a llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaethau goruchwyllo, llywodraethu a rheoleiddio a drafodir uchod, p'un a ydynt yn cael eu cyflawni o fewn Llywodraeth Cymru neu ar wahân, a thalu am

gomisiynu neu brynu i mewn i wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ar sail Cymru a Lloegr.

Byddai angen cyllid hefyd ar gyfer mwy o gapasiti o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys timau goruchwyllo polisi a chyflawni, ac ar gyfer uwch arweinwyr perthnasol o fewn y gwasanaeth prawf Cymreig a'r gwasanaeth sifil Cymreig. Byddai angen talu costau cyrff allanol a sefydlwyd ar gyfer swyddogaethau rheoli a goruchwyllo (fel yr amlinellwyd uchod).

Os yw'r model ar gyfer y gwasanaeth prawf yn canolbwyntio ar ddewisiadau amgen i ddedfrydau o garchar a dargyfeirio, bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu y tu hwnt i'r gwasanaeth prawf, gan gynnwys drwy wasanaethau fel cymorth iechyd meddwl ac addysg, sy'n cael eu hariannu o gyllideb Cymru.

Dylid nodi, os bydd gwasanaeth prawf datganoledig yn llwyddo i ddargyfeirio troseddwr o ddedfrydau o garchar, y byddai'r costau ychwanegol o reoli'r cynnydd yn nifer y troseddwr ar brawf yn disgyn ar y gwasanaeth datganoledig. Yn y cyfamser, byddai'r arbedion ariannol o ostyngiad yn y boblogaeth carchardai yn cael eu gwireddu gan Drysorlys EF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Os bydd y gwasanaeth carchardai yn parhau i gael ei gadw'n ôl gan San Steffan tra bod y gwasanaeth prawf wedi'i ddatganoli i Gymru, po fwyaf llwyddiannus y mae'r gwasanaeth prawf Cymreig o ran lleihau dedfrydau o garchar, y mwyaf yw'r gost bosibl i Lywodraeth Cymru.¹³ Manylir ymhellach isod ar y rhyngweithio rhwng carchardai, y gwasanaeth prawf, a'r system cyfiawnder troseddol, a manylir ar y berthynas â'r gwasanaeth carchardai yn yr adran isod ar faterion trawsffiniol.

Rhyngweithio â phwerau a gadwyd yn ôl

Un o'r manteision allweddol a nodwyd ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru yw galluogi gwell rhyngweithio â gwasanaethau allweddol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gyfrifol amdanynt. Er bod rhyngweithio â phwerau datganoledig yn cael eu cwmpasu yn adran fudd-daliadau'r adroddiad hwn, mae hefyd yn bwysig ystyried y rhyngweithio â phwerau a gwasanaethau a fydd yn parhau i fod wedi'u cadw.

Bydd datganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid yn dal i adael y rhan fwyaf o'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei llywodraethu, ei gweithredu a'i deddfu ar lefel Cymru a Lloegr gan lywodraeth y DU. Er bod system cyfiawnder

¹³ Hynny yw, heb unrhyw negodi ynghylch ailgyfeirio arbedion o'r ystâd carchardai i uwchraddio cyllid y gwasanaeth prawf, er mai'r mecanwaith mwyaf tebygol ar gyfer hyn fyddai drwy symiau canlyniadol Barnett heb eu neilltuo.

troseddol Gymreig eisoes yn bodoli *de facto*, serch hynny mae'n wir y byddai datganoli yn dal i adael nifer o ffactorau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth prawf y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae ymylon anwastad y system yn gorwedd rhwng y system cyfiawnder troseddol heb ei datganoli (gan gynnwys y gwasanaeth prawf), a'r meysydd polisi datganoledig y mae gwasanaethau prawf yn cydweithio â nhw, megis tai, iechyd, ac addysg a sgiliau. Byddai datganoli yn gofyn am ffurfioli perthnasoedd â llysoedd, carchardai, a'r heddlu, a byddai angen meithrin cysylltiadau cryfach â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

I ddefnyddwyr y gwasanaeth prawf, mae eu taith bresennol drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys rhyngweithio â'r heddlu, y llysoedd, y carchardai a'r gwasanaeth prawf, yn cael ei rheoli gan sefydliadau llywodraeth y DU yn unig, ac yn bennaf drwy HMPPS. Byddai datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru yn golygu trosglwyddo cyfrifoldebau yn y daith rhwng y carchar a'r gwasanaeth prawf, o lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Gall hyn achosi cymhlethdodau, megis trosglwyddo cofnodion electronig a data troseddol. Er enghraifft, efallai y bydd troseddwr sy'n torri amodau ei drwydded wedyn yn cael ei alw'n ôl i'r carchar a byddai unwaith eto'n dod o dan gyfrifoldeb llywodraeth y DU.

Byddai angen i swyddogaethau a pherthnasoedd prawf rhwng adrannau, a gyflawnir ar hyn o bryd drwy gael y gwasanaeth prawf o fewn HMPPS, gael eu ffurfioli ar sail rynglywodraethol a rhyngadrannol, fel y gall y gwaith presennol barhau. Byddai angen hefyd ffurfioli a mynd i'r afael â'r berthynas rhwng carchardai yng Nghymru a Lloegr, a gwasanaethau prawf Cymru a Lloegr. Rydym yn archwilio'r mater hwn ymhellach yn yr adran ar faterion trawsffiniol.

Bydd angen hefyd sicrhau bod y berthynas â'r llysoedd yn cael ei ffurfioli, yn lleol o fewn y system llysoedd yng Nghymru a ledled Cymru a Lloegr lle bo angen. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i sicrhau bod hyder barnwyr wrth roi dedfrydau di-garchar yn seiliedig ar yr adroddiadau cyn-dedfrydu a ddarparwyd gan y gwasanaeth prawf (Whitehead ac Ely, 2018).

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o adroddiadau cyn-dedfrydu wedi'u cyflwyno ar lafar yn hytrach nag yn ysgrifenedig (Whitehead, 2018). Mae cyngor cyn-dedfrydu llafar yn llai tebygol o gael ei ystyried yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r defnyddiwr gwasanaeth, ac mae hefyd yn llai tebygol o dynnu ar wybodaeth gan wasanaethau ac asiantaethau eraill (Kenton a Moore, 2020). Dywedodd y rhai a gyfwelwyd y bu dibyniaeth gynyddol ar fformatau digidol safonol ar gyfer adroddiadau cyn-dedfrydu, gyda 'thorri a gludo brawddegau' ac offer ystadegol i amcangyfrif risg, gan wneud yr adroddiadau hyn yn llai personol i'r unigolyn ac felly'n llai defnyddiol i farnwyr.

Fel rhan o gytundeb datganoli, gallai Llywodraeth Cymru ystyried fformat neu ddull gwahanol o gyflwyno adroddiadau cyn-dedfrydu i'r llysoedd, a allai arwain at well cyngor ar ddedfrydu. Byddai hyn yn gofyn am ystyried yr offer asesu priodol; penderfynu a ddylai adroddiadau cyn dedfrydu gael eu cyflwyno gan Swyddogion Prawf neu Swyddogion Gwasanaeth Prawf (fel ar hyn o bryd); a thrafod gyda system y llysoedd i sicrhau bod y farnwriaeth yn croesawu'r newid.

Mae consensws hefyd ymhlith arweinwyr yn y Gwasanaeth Prawf bod y preifateiddio blaenorol wedi arwain at lai o hyder gan ddedfrydwyr, ond bod perthnasoedd yn cael eu hailadeiladu'n araf o ganlyniad i ailwladoli (Robinson et al., 2023). Byddai angen i wasanaeth datganoledig sefydlu'r perthnasoedd hyn a magu hyder mewn unrhyw fodel Cymreig penodol, yn enwedig os oes newidiadau mewn gweledigaeth, egwyddorion, neu sut mae adroddiadau cyn-dedfrydu'n cael eu darparu.

Bydd datganoli'r system gyfiawnder yn rhannol hefyd yn creu ymylon anwastad newydd rhwng system cyfiawnder troseddol Cymru a Lloegr a gwasanaeth prawf datganoledig. Yn benodol, mae'r ffaith bod llwythi achosion swyddogion prawf yn cael eu pennu'n rhannol o leiaf gan y llysoedd yn cyfyngu ar y rheolaeth wirioneddol a fydd gan Lywodraeth Cymru dros y gwasanaeth.

Er enghraifft, byddai canllawiau dedfrydu yn parhau o dan reolaeth llywodraeth y DU, a byddai unrhyw newidiadau gan lywodraeth y DU i gyfeiriad mwy trugarog neu fwy cosbol yn effeithio ar lwyth gwaith y gwasanaeth prawf Cymreig. Pe bai gan lywodraeth y DU farn wahanol am yr angen am ddedfryd o garchar na Llywodraeth Cymru, gallai hyn arwain at ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth prawf wneud gwaith sy'n groes i gyfeiriad polisi Cymru. Byddai newidiadau i arferion y gwasanaeth prawf Cymreig yn y dyfodol, megis adroddiadau cyn-dedfrydu neu fonitro electronig, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a reolir gan San Steffan sicrhau bod ganddynt dechnoleg gydnaws a'u bod yn gyfarwydd â'r newidiadau, ac i'r gwrthwyneb.

At hynny, gallai polisi llywodraeth y DU gynyddu llwythi achosion. Er enghraifft, gallai cynigion i ddod â dedfrydau o garchar tymor byr i ben, rhoi dedfrydau gohiriedig yn eu lle sy'n cynnwys goruchwyliaeth gymunedol, neu ryddhau mwy o garcharorion â dedfrydau tymor byr dan oruchwyliaeth, arwain at waith ychwanegol i'r gwasanaeth prawf (Carr, 2023).

Byddai cyllid ychwanegol yn Lloegr i fynd i'r afael â llwythi achosion uwch a achosir gan newidiadau polisi yn arwain at gynnydd yng ngrant bloc Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai'r cyllid hwn wedi'i neilltuo, ac efallai na fyddai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn ei ddyrannu'n awtomatig i'r gwasanaeth prawf datganoledig. Yn ddelfrydol, byddai newidiadau o'r fath yn cael eu hamlygu drwy drefniadau gwaith rhynglywodraethol, ond Llywodraeth Cymru fyddai'n parhau i fod yn gyfrifol am bennu'r gyllideb.

Materion trawsffiniol

Mae materion trawsffiniol wedi'u cysylltu'n gynhenid â rhyngweithio sy'n ymwneud â phwerau a gadwyd yn ôl, yn enwedig o fewn system gyfiawnder rannol ddatganoledig. Bydd ffurfioli trefniadau trawsffiniol yn fater sefydliadol allweddol i wasanaeth prawf Cymreig oherwydd nifer y troseddwyd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys yr holl garcharorion benywaidd, sydd wedi'u carcharu yn Lloegr, yn ogystal â'r angen am ddull cyson o reoli troseddwyd risg uwch.

Bydd angen brys i fynd i'r afael â chapasiti carchardai a dyrannu carcharorion, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau presennol ar leoedd mewn carchardai. Mae carchardai yng Nghymru yn derbyn carcharorion o bob rhan o Gymru a Lloegr, a gall carcharorion o Gymru gael eu hanfon i Loegr i gyflawni eu dedfryd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y drosedd y maent yn cael eu heuogfarnu ohoni. Yn 2019, roedd tua thraean o garcharorion Cymreig yn cyflawni eu dedfrydau yn Lloegr, tra bod 70% o garcharorion CEF Berwyn yn Wrecsam yn dod o Loegr (Jones a Wyn Jones, 2022: 38). Yn ogystal, gan nad oes carchar i fenywod yng Nghymru, mae pob carcharor benywaidd yn cyflawni ei dedfryd yn Lloegr. Nid oes ychwaith unrhyw Safle Cymeradwy i fenywod yng Nghymru. Byddai angen i wasanaeth prawf Cymreig sefydlu perthynas waith glir, ffurfiol gyda'i gyfatebwr yn Lloegr i gytuno ar ddulliau o:

- Cyflawni unrhyw wasanaethau prawf gofynnol ar gyfer carcharorion sy'n byw yn Lloegr tra'u bod yn cael eu carcharu yng Nghymru;
- Cyflawni unrhyw wasanaethau prawf gofynnol ar gyfer carcharorion sy'n byw yng Nghymru tra'u bod yn cael eu carcharu yn Lloegr; a
- Trefniadau prawf ar ôl dedfryd o garchar ar gyfer carcharorion sy'n symud ar draws awdurdodaethau prawf ar ôl eu rhyddhau.

I ryw raddau, bydd hyn yn achos o ffurfioli trefniadau gwaith presennol ar draws y gwasanaeth prawf newydd. Ymhellach, dros amser a chydag amrywiaeth gynyddol posibl rhwng dulliau prawf, bydd angen gweithio traws-awdurdodaeth gofalus i sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu a bod modd cynnal parhad gwasanaeth os bydd troseddwyd yn symud rhwng Cymru a Lloegr. Gallai hyn gynnwys rhoi rôl oruchwylio ffurfiol neu anffurfiol i ddedfrydwyr, barnwyr, neu rannau eraill o'r system llysoedd, mewn llywodraethu'r gwasanaeth prawf, fel yr argymhellir mewn papur PDG (Raynor a Deering, 2023). Byddai rôl o'r fath yn cyfrannu rhywfaint at adfer rôl flaenorol y system llysoedd mewn gwaith prawf, yn ogystal â helpu i sicrhau hyder dedfrydwyr yn y swyddogaeth brawf.

Yn benodol, bydd sicrhau bod cysylltiadau ffurfiol da rhwng swyddogion prawf yn Lloegr a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn hanfodol bwysig i sicrhau effeithiolrwydd gwasanaeth prawf Cymru ar gyfer carcharorion a ryddheir o

garchardai yn Lloegr. Yn optimistaidd, gallai hyn ddatrys rhai problemau presennol gydag ymylon anwastad.

At hynny, bydd angen trosglwyddo data megis cofnodion carcharorion ar draws cyfundrefnau ar gyfer troseddwyd sy'n adleoli o Gymru i rannau eraill o'r DU. Mae trosglwyddiadau rhwng yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr, Cymru, a rhai dibynwledydd y goron fel arfer yn digwydd ar sail gyfyngedig, sy'n golygu bod troseddwyd yn ddarostyngedig i'r un cyfreithiau ac amodau yn eu hardal newydd ag y byddent yn eu hen ardal, wedi'i weinyddu gan swyddog prawf yn eu hardal newydd (Llywodraeth yr Alban, 2022). Fodd bynnag, gan fod deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr yr un fath, ar hyn o bryd, mae troseddwyd yn cael eu trosglwyddo i raddau helaeth rhwng ardaloedd ar sail anghyfyngedig, lle mae'r gofynion yn cael eu hailadrodd yn yr ardal newydd. Nid yw'n glir a fyddai hyn yn parhau i fod yn wir pe bai llwybr deddfwriaethol ar gyfer datganoli yn cael ei ddilyn, a bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch trefniadau yn y dyfodol ar gyfer trosglwyddo a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaeth prawf posibl Cymreig a gweddill y DU. Rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, mae protocol wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer troseddwyd sy'n dymuno symud rhwng gwledydd, gan alluogi cydweithrediad a chydgyfwrdd (Notman, Price, a Tilley, 2024). Mae arferion rhannu gwybodaeth cyffredin ar gyfer y troseddwyd mwyaf difrifol eisoes yn bodoli ar lefel y DU, drwy'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

Gweledigaeth tymor hir

Ystyriaeth derfynol ar gyfer yr holl opsiynau datganoli fydd sicrhau bod newidiadau a gyflwynir fel rhan o ddatganoli yn cysylltu â gweledigaethau ac egwyddorion mwy hirdymor, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â newid gweithredol, cydbwyso rheoli troseddwyd ag arferion sy'n canolbwyntio ar ymatal, a sefydlu a gwreiddio gwerthoedd proffesiynol penodol.

Yn eu papur ar werthoedd ac egwyddorion, amlinellodd y PDG weledigaeth ar gyfer gwasanaeth prawf Cymreig sy'n pwysleisio integreiddio gwerthoedd gwaith cymdeithasol traddodiadol y proffesiwn prawf, 'yn ogystal ag integreiddio'r rhain â gwerthoedd sector cyhoeddus ehangach Cymru ac egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol' (Deering et al., 2023: 10). Bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw weledigaeth hirdymor yn cael ei chyfleu'n glir, ei deall, a'i chefnogi yn gynnar yn y broses ddatganoli, hyd yn oed os nad oes modd ei gweithredu ar unwaith. Bydd hyn yn helpu i atal cynllun gwasanaeth prawf datganoledig rhag cau'n anfwriadol opsiynau y gallai fod angen iddynt aros ar agor yn y dyfodol.

Opsiynau ar gyfer datganoli

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno'r hyn a ddeallwn yw'r tri phrif opsiwn ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru. Mae pob un o'r llwybrau hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer newid ac mae iddynt fanteision amlwg; fodd bynnag, daw pob un hefyd â chyfaddawdau y bydd angen eu hystyried yn ofalus.

Y tri opsiwn rydym wedi'u hystyried yw:

1. Memorandwm cyd-ddealltwriaeth (MoU) yn arwain at gydgomisiynu rhai gwasanaethau, yn debyg i'r trefniant sydd ar waith ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill;
2. Trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol heb gymhwysedd deddfwriaethol, gan ganiatáu i Weinidogion Cymru oruchwylio'r gwasanaeth prawf yn weinyddol heb unrhyw bwerau deddfu; a
3. Trosglwyddo'n llawn gyfrifoldeb deddfwriaethol a gweithredol, tynnu'r gwasanaeth prawf oddi ar y rhestr o bwerau a gadwyd yn ôl a rhoi pŵer i'r Senedd ddeddfu i greu gwasanaeth prawf Cymreig.

Nid yw'r opsiynau hyn o reidrwydd yn annibynnol ar ei gilydd: gallai'r gwasanaeth prawf gael ei ddatganoli dros amser, gan ganiatáu dilyniant o un opsiwn i'r llall. Nid oes ychwaith, fodd bynnag, unrhyw ofyniad ar gyfer dilyniant y tu hwnt i bwynt penodol.

Er ein bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a mecanweithiau deddfwriaethol ar gyfer datganoli yn yr adrannau a ganlyn, nid ydym yn darparu cyngor cyfreithiol. Byddai angen ystyried y cynigion a gyflwynir yma mewn ymgynghoriad â chynghor cyfreithiol priodol.

Mae gweddill yr adran hon yn cyflwyno ac yn trafod pob opsiwn. Yn gyntaf, rydym yn esbonio'r hyn y mae pob dull yn ei olygu a'i ganlyniadau posibl. Yna mae tabl cryno yn amlinellu effaith pob opsiwn ar yr ystyriaethau ymarferol a nodir uchod.

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Byddai'r dull MoU yn seiliedig ar y system ddatganoli sydd eisoes ar waith mewn mannau eraill yn y Gwasanaeth Prawf, yn benodol Manceinion Fwyaf. Mae hyn yn golygu sefydlu cytundeb rhwng HMPPS a'r awdurdod perthnasol, sydd fel arfer yn awdurdod maerol cyfunol yn Lloegr, ynghylch cydgomisiynu gwasanaethau mewn ardal benodedig. Manceinion Fwyaf yw'r enghraifft fwyaf sefydledig, er bod Bryste a Llundain hefyd yn dilyn dulliau tebyg.

Mae'r MoU ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill yn canolbwyntio'n benodol ar gydgomisiynu gwasanaethau ac nid yw'n cynnwys rheolaeth ar weithrediadau, cyllid na llywodraethu gwasanaethau prawf. Mae HMPPS yn parhau i fod yn gyfrifol am y meysydd hyn yn unig. Felly, mae'r dull hwn yn golygu'r newid sefydliadol lleiaf, gan nad oes unrhyw swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo'n ffurfiol o HMPPS, ac ni roddir unrhyw swyddogaethau'n ffurfiol i'r parti arall ychwaith. Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth i weithredu'r MoU; mae'n gytundeb rhwng awdurdodau ac felly gellir ei ddrafftio a'i roi ar waith yn gymharol gyflym.¹⁴ Nid yw'n drefniant parhaol ychwaith – gall fod â therfyn amser, a gall y naill barti neu'r llall adael y cytundeb os bydd amgylchiadau'n newid.

Mantais y MoU, ar wahân i'w weithrediad cymharol gyflym, yw y gall cydgomisiynu gwasanaethau alluogi mwy o reolaeth leol ac ymatebolrwydd na gweithredu o dan fframwaith comisiynu cenedlaethol. Ym Manceinion Fwyaf, bu ymdrech barhaus, fwrriadol i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o dan y MoU yn alinio â blaenoriaethau'r Maer a'r Awdurdod Cyfunol. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, canolbwyntio ar droseddwy'r benywaidd drwy gomisiynu gwasanaethau y gellir eu darparu mewn mannau i fenywod yn unig, gan eu gwneud yn llai brawychus o bosibl o ran cael mynediad iddynt. Mae hyblygrwydd cyllidebol, gan gynnwys datganoli'r grant llety cymunedol, yn golygu y gellir comisiynu gwasanaethau ochr yn ochr â rhai presennol eraill ym Manceinion Fwyaf. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer buddsoddi rhagor o adnoddau mewn rhaglenni sefydledig a phrofedig yn hytrach na dyblygu gwariant yn ddiangen. Ym Manceinion Fwyaf, er enghraifft, mae buddsoddiad wedi'i wneud mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol presennol yn hytrach nag ailgomisiynu. Mae manteision amlwg i'r dull hwn o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian, ond dylai prynu i mewn i wasanaethau presennol hefyd olygu darpariaeth o ansawdd gwell dros y tymor hwy gyda manteision hirdymor posibl i ganlyniadau troseddwy'r. Gallai dull o'r fath hefyd gefnogi asiantau cyflenwi lleol ac alinio â gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n seiliedig ar ardaloedd.

I ryw raddau, mae hyblygrwydd tebyg a threfniadau lleol wedi bod yn bosibl o dan y system bresennol. Mae prosiect Grand Avenues yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn dangos bod dull cymunedol, aml-wasanaeth tebyg yn bosibl heb ddatganoli pellach. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod cydgomisiynu eisoes yn digwydd yng Nghymru i raddau, yn enwedig ym maes camddefnyddio sylweddau a gofal iechyd yn ehangach (Rabaiotti, 2024). Fodd bynnag, mantais MoU yw y gellir cymhwyso'r dulliau hyn yn ehangach, o fewn cyd-destun polisi penodol y cyrff cydgomisiynu y cytunwyd arnynt yn y MoU. Mae hyn yn galluogi enghreifftiau llwyddiannus o arfer arloesol i gael eu huwchraddio yn gyflymach heb fod angen ymdopi â rhwystrau biwrocrataidd neu

¹⁴ Nid yw'r MoU ei hun yn offeryn cyfreithiol ond mae'r cytundeb trosglwyddo cyllid wedi'i osod ar sail gadarnach.

sefydliadol. Dywedodd rhanddeiliaid y gellir ystyried bod presenoldeb MoU yn rhoi caniatâd i arbrofi gyda dulliau newydd, heb deimlo eu bod yn cael eu cyfyngu gan yr hyn sydd eisoes ar waith.

Gellir comisiynu dulliau hefyd i leihau agweddau ar lwyth achosion o fewn y system bresennol. Yn ddiweddar, mae Manceinion Fwyaf wedi comisiynu 'canolfan llesiant' sydd wedi'i gynllunio i ymgymryd â swyddogaethau cymorth lefel is, fel cyfeirio darpariaeth gwasanaeth neu helpu defnyddwyr i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhyddhau capasiti i staff prawf ganolbwyntio ar reoli risg ac agweddau mwy eu hangen ar eu llwyth achosion, tra bod y canolbwynt llesiant yn ymdrin â swyddogaethau eraill. Yn anecdotiaidd, mae'n ymddangos bod mwy o hyder yng Ngwasanaeth Prawf y DU gan y llysoedd ym Manceinion Fwyaf, er nad yw hyn wedi'i werthuso na'i fesur yn ffurfiol. Gallai model tebyg ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru felly helpu i gynyddu hyder dedfrydwyr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu y gall sefydlu'r berthynas hon fod yn anodd ac yn aml mae'n dibynnu ar feithrin cydberthnasoedd personol da (Notman, Price, a Tilley, 2024).

Mae anfanteision i'r system hon hefyd. Er y byddai'n caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth wario cyllidebau comisiynu y cytunwyd arnynt, byddai'r cyllidebau hyn yn dal i gael eu pennu gan HMPPS, a phe dymunir gwariant ychwanegol, byddai'n rhaid tynnu hwn o rywle arall (naill ai cyllidebau Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yn y lle cyntaf). Byddai angen parodrwydd hefyd i integreiddio darpariaeth gwasanaeth gyda gwasanaethau eraill a gomisiynir yn lleol, gan olygu bod angen rheoli cydberthnasoedd yn dda gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru a phartneriaid trydydd sector.

Nid yw'r trefniant MoU presennol ym Manceinion Fwyaf yn rhoi unrhyw rôl i awdurdodau lleol o ran cyflawni, gweithrediadau, na chyfeiriad strategol y gwasanaeth prawf, sy'n parhau i ymateb i bwysau a chyfarwydddebau llywodraeth y DU. Byddai'r union raddau y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar bolisi pe byddent yn dewis y model hwn ar gyfer datganoli yn cael ei bennu drwy drafod a negodi rhwng y pleidiau. Mae'n bosibl y gellid dod i gytundeb ehangach, gan roi rôl fwy gweithredol i Lywodraeth Cymru yn llywodraethu'r gwasanaeth prawf, er nad yw hyn wedi'i warantu o bell ffordd. Mae'r ansicrwydd hwn yn cyflwyno risg bosibl, oherwydd er y gallai Llywodraeth Cymru gael mwy o fewnbwn mewn model yn y dyfodol nag sydd gan Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf ar hyn o bryd, nid yw wedi'i sicrhau. At hynny, mae gallu'r naill blaid neu'r llall i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ei gwneud yn agored i newid o ran blaenoriaethau gwleidyddol, yn enwedig os yw llywodraeth y DU yn y dyfodol yn anhapus â lefel y mewnbwn a roddir i Lywodraeth Cymru.

Mae'r dull MoU hefyd yn gadael y gwasanaeth prawf o fewn HMPPS, sydd wedi codi pryderon ymhlith rhai rhanddeiliaid oherwydd llwyth gwaith presennol a materion diwylliant sefydliadol. Er y gallai'r pryderon hyn gael eu lleddfu, i raddau, os caiff y Model Gweithredu Targed newydd ei weithredu'n llawn, efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod cyfle wedi'i golli os yw'r gwasanaeth prawf yn parhau i fod yn rhan sefydliadol o'r gwasanaeth carchardai. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai'n rhaid i werthoedd tymor hwy, y gweithlu a newidiadau diwylliannol a hyrwyddir yng Nghymru gael eu gweithredu ar lefel y DU (er enghraifft, adfer cymhwyster gwaith cymdeithasol).

Byddai angen datblygu gallu mewnol o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weinyddu'r MoU a llunio cyfeiriad strategol a chyflawniad y swyddogaethau hyn, gan ofyn am adnoddau penodedig.

Yn ymarferol, byddai angen ystyried sut y byddai MoU yn cael ei weithredu a'i reoli. Mae enghreifftiau presennol yn Lloegr i gyd o dan adain Awdurdodau Cyfunol Maerol, strwythur llywodraethu nad yw'n bodoli yng Nghymru ac nad yw'n alinio'n daclus â strwythurau presennol (er enghraifft, nid ydynt yn cyfateb yn union i gydbwyllgorau corfforaethol). Mae gan Lywodraeth Cymru fwy o gyfrifoldeb nag awdurdod cyfunol ac mae ganddi fwy o bŵer i roi newid ar waith, sy'n golygu y gallai fynd ag agweddau ar y trefniant MoU ymhellach a chael mwy o effaith drwy gydgomisiynu nag Awdurdodau Cyfunol. Fodd bynnag, un fantais i'r model Awdurdod Cyfunol yw bod y Maer hefyd fel arfer yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu sicrhau bod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yn cael ei lywio gan ddatblygiadau mewn meysydd eraill y maent yn eu goruchwyllo, gan gynnwys y gwasanaeth prawf, ac i'r gwrthwyneb. Heb ddatganoli plismona i Gymru, mae perygl y bydd strategaeth a gweithrediadau o dan y MoU yn llai cydgysylltiedig nag y gallent fod.

Os dilynir yr opsiwn hwn, naill ai ar ei ben ei hun neu fel rhan o setliad datganoli tymor hwy, bydd angen ystyried a drafftio'r MoU yn ofalus i sicrhau bod trefniadau'n gweddu i'r hyn sy'n rhesymol ac yn ymarferol yng Nghymru, yn hytrach nag atgynhyrchu'r rhai a sefydlwyd mewn gwahanol gyd-destunau sefydliadol yn Lloegr. Bydd hefyd yn bwysig dysgu oddi wrth yr hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill a'i werthuso, tra'n osgoi agweddau ar y rhaglen a allai, dros amser, fod yn llai effeithiol.

Trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol

O dan Adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gellir gwneud gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau, a fyddai'n trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru i Weinidogion Cymru (yn ôl y gyfraith, mae swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion i'w harfer, er bod arfer y

swyddogaethau'n wirioneddol yn cael ei gyflawni fel arfer gan Lywodraeth Cymru). Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

Byddai hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru dros y gweithlu, staffio, llywodraethu, caffael ac, o bosibl, gwerthoedd a model gweithredu hirdymor y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru. Byddai gwasanaeth prawf Cymreig ar wahân, a allai fod yn wahanol i'r gwasanaeth yn Lloegr. Fodd bynnag, ni fyddai'r Senedd yn gallu pasio deddfau sy'n effeithio ar y gwasanaeth prawf, a fyddai'n parhau o dan reolaeth Senedd y DU.

Mae'r dull hwn yn debyg i'r model datganoli gwreiddiol ar gyfer Cymru, a oedd ar waith rhwng 1998 a 2006, lle cyflawnodd Cynulliad Cymru y swyddogaethau a arferai gael eu harfer gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cyfraith Cymru, 2021). Byddai'r swyddogaethau y gellir eu trosglwyddo yn dibynnu ar drafodaethau gyda llywodraeth y DU a byddent ond yn arferadwy yn unol â thelerau'r gorchymyn. Yn dibynnu ar y trafodaethau, gallai fod cryn le o dan y model hwn i addasu'r sefydliad ac, i ryw raddau, cyfeiriad strategol y gwasanaeth prawf.

Er enghraifft, gellid addasu rheolaeth y gweithlu, yn enwedig pe bai'r gwasanaeth prawf yng Nghymru yn dod yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwerthoedd ymarferwyr a diwylliant sefydliadol newydd, gan adfer gofynion cymwysterau gwaith cymdeithasol efallai neu safonau tebyg. Gallai hyn olygu sefydlu cofrestr broffesiynol neu gorff rheoleiddio newydd, neu ddod i gytundeb â'r gofrestr broffesiynol gyfredol sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd ledled Cymru a Lloegr. Er y byddai hyn yn gofyn am adnoddau, a threfniadau ar gyfer cydnabyddiaeth drawsffiniol â Lloegr, mae cyrff presennol fel Cyngor y Gweithlu Addysg yn awgrymu na ddylai fod yn anodd sefydlu hyn yn logistaidd.

Byddai lle hefyd i newid rhai agweddau ar waith prawf, er enghraifft drwy sefydlu swyddogaethau cymorth tebyg i'r canolfannau llesiant sy'n cael eu cyflwyno ym Manceinion Fwyaf, i liniaru yn erbyn llwythi achosion uchel. Efallai y bydd angen adnoddau a buddsoddiad ychwanegol hefyd. Fodd bynnag, os gellir rhannu gwasanaethau ar draws meysydd cyfrifoldeb datganoledig, gallai fod cyfleoedd i gydgyssylltu'r gwasanaethau a ddarperir a lleihau costau ychwanegol cyflawni'r swyddogaeth brawf. Byddai rheolaeth weithredol ar y gwasanaeth prawf yn caniatáu i drefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu adnoddau a chydgyssylltu gael eu rhoi ar waith a allai ganiatáu ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hwy yn ogystal â gosod perthnasoedd sefydliadol ar sylfaen gryfach.

Byddai angen i staff drosglwyddo i'r corff newydd, a byddai angen rheoli trefniadau o ran tâl, amodau, a phensiynau'n ofalus i sicrhau eu bod o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Os bydd staff prawf yn parhau i fod yn weision sifil, dylai hyn fod yn syml i'w reoli, ond fel arall bydd angen ymgynghoriad ffurfiol a phroses TUPE. Bydd angen y rheolaeth hon nid yn unig ar ddechrau trefniadau llywodraethu

datganoledig ond bydd hefyd angen cymorth adnoddau dynol parhaus, heb unrhyw sicrwydd o gyllid ychwanegol ar gyfer hyn.

Mae'n annhebygol y gellid newid trefniadau llywodraethu i ganiatáu, er enghraifft, rheoli a chyflawni gan awdurdodau lleol, ond gellid addasu trefniadau llywodraethu rhanbarthol o fewn cwrmpas y cytundeb datganoli i wneud y gwasanaeth prawf yn fwy ymatebol yn lleol. Bydd angen sicrhau cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet neu Weinidog dros y gwasanaeth prawf, gyda chraffu drwy un o bwyllgorau'r Senedd.

O dan yr opsiwn hwn, bydd angen sefydlu cydberthnasoedd gwaith ffurfiol â'r llysoedd a swyddogaethau a gadwyd yn ôl eraill y system cyfiawnder troseddol, fel yr amlinellwyd uchod. Gallai hyn gynnwys rôl oruchwylio neu gynghori ffurfiol i'r llysoedd wrth oruchwylio gwaith y gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, byddai llwyth achosion a gofynion ar swyddogion prawf a staff eraill yn dal i gael eu pennu gan bolisi a deddfwriaeth ar sail Cymru a Lloegr, gan olygu y byddai'r trefniadau hyn o bosibl yn llai beichus (ac angen llai o waith rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru) nag o dan model datganoli llawnach. Mae hyn oherwydd y byddai'r trefniadau hyn yn debygol o gael eu cynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi newydd a osodir gan HMPPS, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, neu'r Senedd. Byddai trefniadau dedfrydu a charcharu yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y system cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl.

Byddai hyn yn cyfyngu ar faint o newid a allai ddigwydd o ran rheoli troseddwr, a fyddai'n parhau mewn modd tebyg i'r system bresennol. Fodd bynnag, gallai newidiadau a wneir i amodau gwaith helpu i liniaru llwythi achosion, a gallai adeiladu darpariaeth gwasanaeth wedi'i llywio'n fwy holistaidd, yn enwedig yn y gymuned, gyfrannu at ddatblygu gwasanaeth sy'n teimlo'n benodol Gymreig, hyd yn oed heb y gallu i newid y gofynion ar staff prawf yn uniongyrchol.

Byddai angen uned bwrpasol gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r gwasanaeth prawf a datblygu polisi, ac mae'n debygol y byddai angen mwy o staff nag ar hyn o bryd. Byddai hyn yn bwysig er mwyn sicrhau y gallai Llywodraeth Cymru wireddu manteision posibl y model hwn.

Mae'r dull hwn yn eistedd rhwng y MoU a datganoli deddfwriaethol llawn, ac felly mae perygl y byddai'n cael ei ystyried yn fesur hanner ffordd ac yn anfoddhaol i rai rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae'n cynnig cyfle i lywio agweddau ar y gwasanaeth prawf i'r cyfeiriad a nodir gan y PDG ac eraill o fewn system cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl i raddau helaeth, heb fod angen yr un lefel o adnoddau a graddfa o newid â datganoli deddfwriaethol llawn. Gall, felly, gael ei ystyried yn gam defnyddiol i'w gymryd os nad yw datganoli cyfiawnder yn llawn (yn enwedig pwerau dedfrydu) yn gyraeddadwy yn y tymor canolig.

Datganoli deddfwriaethol a gweithrediaeth llawn

Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu'r lefel uchaf o reolaeth ddatganoledig dros y gwasanaeth prawf yng Nghymru. Gan ddefnyddio Adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gallai llywodraeth y DU addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel nad oedd y gwasanaeth prawf bellach yn faes a gadwyd yn ôl. Byddai'r Senedd wedyn yn gallu pasio deddfwriaeth sylfaenol, o fewn terfynau'r addasiad hwnnw a'r cymhwysedd presennol, i sefydlu trefniadau newydd yng Nghymru. Mae'n debygol y byddai angen Deddf Seneddol y DU hefyd, yn enwedig i lywodraethu'r berthynas rhwng y rhannau datganoledig a'r rhannau a gadwyd yn ôl o'r system gyfiawnder.

O dan y dull hwn, byddai angen sefydlu swyddogaethau prawf yn y gyfraith, a sefydlu model gweithredu. Gallai'r gwasanaeth prawf naill ai gael ei gynnal fel rhan o wasanaeth newydd neu ei gyfuno â chorff sy'n bodoli eisoes.

Mae'r model hwn yn cynnig yr hyblygrwydd mwyaf, gan roi'r cyfle i sefydlu gwasanaeth prawf mor agos at lechen lân â phosibl. Byddai'n galluogi'r manteision a drafodwyd uchod ac yn caniatáu datblygiad pellach o fodel prawf penodol Gymreig. Er, i ryw raddau, gall yr hyblygrwydd hwn gael ei gyfyngu rhywfaint gan ddeddfwriaeth y DU sy'n ymwneud â sut y byddai'r cyfrifoldebau sydd newydd eu trosglwyddo yn rhyngweithio â'r gweithgarwch arall sy'n ymwneud â chyfiawnder sy'n parhau i fod wedi'i gadw'n ôl.

Ar gyfer y gweithlu prawf, byddai angen cynnig y cyfle i staff presennol drosglwyddo i Gymru i gyflogwr newydd a byddai angen sefydlu graddfeydd cyflog, amodau gwaith a threfniadau pensiwn ar wahân. Mae Cymru wedi rheoli'r broses hon yn llwyddiannus sawl gwaith, gan gynnwys sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, Trafnidiaeth Cymru, a Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil). Dylai'r broses bontio fod yn llyfn felly, er y bydd angen rheoli'r broses yn ofalus a rhoi ystyriaeth i bob parti, gan gynnwys unrhyw staff nad ydynt yn dymuno trosglwyddo. Efallai y bydd angen sefydlu cyrff newydd i ymdrin â chofrestru a rheoleiddio proffesiynol.

Gellid strwythuro llywodraethu mewn ffyrdd newydd, yn rhydd o'r trefniadau presennol. Os bydd corff newydd yn cael ei sefydlu, byddai angen penderfynu ar ei berthynas â chyrff eraill yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, goruchwyllo a chraffu gan y Senedd a/neu Lywodraeth Cymru, a'i strwythurau mewnol a rhanbarthol. Byddai rhyddid sylweddol i weithredu model sy'n alinio â'r gwerthoedd a'r egwyddorion a amlinellir mewn polisi ac o'r sylfaen dystiolaeth ehangach, gan gynnwys gwaith y PDG. Fel arall, gellid integreiddio'r gwasanaeth prawf i strwythurau eraill sy'n bodoli eisoes, megis cyflawni gan awdurdodau lleol. O dan y naill ddull neu'r llall, gallai'r gwasanaeth prawf gydlyn neu integreiddio'n haws â gwasanaethau datganoledig, gan ganiatáu ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar y cyd neu gyllidebau a chomisiynu a rennir. Gallai'r gwasanaeth prawf hefyd

gyfranogi'n llawnach mewn strwythurau rhanbarthol megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Pa bynnag strwythur llywodraethu a ddewisir, bydd yn bwysig sicrhau arolygu, craffu a goruchwyllo priodol. Byddai angen gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid defnyddio strwythurau presennol Cymru a Lloegr neu wro oddi wrthynt yn rhannol neu'n llawn, gan ystyried yr adnoddau, y capasiti a'r amser sydd eu hangen i sefydlu cyrff newydd. Byddai angen penodi Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog cyfrifol, gyda chraffu yn y Senedd lawn a thrwy bwyllgorau.

Yn yr un modd â datganoli gweithrediaeth, bydd angen gwneud trefniadau ffurfiol gyda'r llysoedd a'r system cyfiawnder troseddol ynghylch rôl y gwasanaeth prawf yn y system llysoedd, ei rôl o ran rheoli risg a throreddwyr, a'r ffordd y caiff carcharorion eu trin ar draws ffiniau, ymhlith materion eraill. O dan y system hon, mae lle hefyd i gael perthynas waith agos â'r llysoedd, ac o bosibl rôl oruchwyllo ar eu cyfer. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw gwasanaeth prawf Cymru yn ymwahanu, neu'n cael ei weld yn ymwahanu, oddi wrth y system yn Lloegr. Bydd hefyd yn helpu i greu a chynnal hyder yn y gwasanaeth prawf o rannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'n debyg mai'r math hwn o ddatganoli fydd y mwyaf dwys o ran adnoddau, er y daw hefyd â'r cynnydd mwyaf mewn cyllid gan lywodraeth y DU. Yn ogystal â chostau rhedeg gwasanaeth prawf datganoledig, efallai y bydd angen sefydlu cyrff rheoleiddio a goruchwyllo newydd, a bydd angen creu capasiti sylweddol o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni a datblygu polisi. Bydd unrhyw newidiadau i'r model gweithredu prawf, neu gostau staffio cynyddol i adeiladu capasiti ychwanegol o fewn unrhyw ran o'r system, hefyd yn dod ar gost. Os na ellir talu'r costau hyn, a all fod yn bryder realistig o ystyried y cyd-destun ariannol presennol, bydd yn cyfyngu ar y graddau y gall gwasanaeth prawf yng Nghymru wahaniaethu ei hun yn llwyddiannus oddi wrth y system bresennol. Byddai unrhyw ddiffyg mewn adnoddau hefyd yn effeithio ar lywodraethu a chyflawni gwasanaeth prawf Cymreig.

Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd i ddylanwadu ar agweddau eraill ar y system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae ymgysylltu â dioddefwyr ar hyn o bryd yn rhan o Wasanaeth Prawf y DU ond yn cael ei ddarparu gan staff nad ydynt yn arbenigwyr. Awgrymodd arbenigwr y gallai hwn fod yn faes lle gallai Llywodraeth Cymru gyflawni canlyniadau gwell drwy ddefnyddio cyllid i gomisiynu mathau newydd a mwy effeithiol o ymgysylltu â dioddefwyr, yn enwedig gan fod ymchwil yn awgrymu nad yw'r system bresennol yn gwasanaethu dioddefwyr yn dda (Rolfe et al., 2023).

O fewn cyd-destun system cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl yn bennaf, bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei gyflawni, yn enwedig gan fod dedfrydu wedi'i gadw'n ôl gyda phwerau'n parhau gyda'r llysoedd, gan adael hyblygrwydd cyfyngedig i

dreialu dulliau newydd. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu addasu diwylliant a gwerthoedd sefydliadol neu ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cydgysylltiedig a lleol, byddai'r union drefniadau prawf ar gyfer troseddwyd a defnyddwyd gwasanaethau yn fater i'r llysoedd yn unol â chanllawiau dedfrydu. Byddai hyn yn cyfyngu ar y graddau y gellid dilyn dull ymatal, ac o bosibl yn arwain at densiwn rhwng gwasanaeth prawf Cymreig a llysoedd a gwasanaethau carchardai Cymru a Lloegr, a allai fod yn llai argyhoeddedig o rinweddau'r dull hwn.

Bydd angen cynllunio gofalus er mwyn sicrhau y gellir cyflawni manteision y math hwn o ddatganoli wrth fynd i'r afael â heriau capasiti a materion sy'n deillio o'r setliad datganoli newydd. Ar ben hynny, o ystyried yr amrywiaeth o gyrff newydd y bydd angen eu sefydlu, mae hon yn debygol o fod yn broses aml-flwyddyn, a allai gael ei chefnogi gan ffurf arall ar ddatganoli fel trefniant interim. Gallai dysgu gan y rhai sydd â phrofiad o reoli newid (gan gynnwys o fewn y Gwasanaeth Prawf) ac oddi wrth wledydd eraill sydd wedi sefydlu gwasanaethau prawf helpu i roi'r newid hwn ar waith yn llwyddiannus (gweler Rhan 2, Notman, Price, a Tilley, 2024).

Bydd yn hollbwysig sicrhau bod cynllunio a strategaeth yn cydbwysu rhedeg y gwasanaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig â'r rhaglen newid tymor hwy sy'n adlewyrchu gwerthoedd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r opsiynau

Mae Tabl 1 yn dangos yr hyn y gallai gwahanol ddulliau o ddatganoli ei olygu ar gyfer yr ystyriaethau ymarferol a amlinellir uchod.

Tabl 1: Dulliau gwahanol a'u heffeithiau ar yr ystyriaethau ymarferol

Ystyriaethau ymarferol	MoU	Cyfrifoldeb gweithredol	Datganoli deddfwriaethol
Gweithlu	Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS.	Byddai'n dod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, a byddai staff prawf yn cael eu trosglwyddo i gorff newydd.	Drwy Ddeddf y Senedd, gallai hyn ddod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, a byddai staff prawf yn cael eu trosglwyddo i gorff newydd.
Llywodraethu rhanbarthol	Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS.	Y gallu i ystwytho llywodraethu rhanbarthol neu newid i fodel gwahanol.	Byddai'r Senedd yn cael rheolaeth lawn dros strwythur, cyflawni a llywodraethu'r gwasanaeth prawf yng Nghymru a gallai ddeddfu i gyflawni swyddogaethau prawf drwy gorff newydd neu gorff sy'n bodoli eisoes.
Rheolaeth a goruchwyllo	Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS. Rheolaeth gyfyngedig gan Lywodraeth Cymru o ran cydgomisiynu gwasanaethau.	Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am reolaeth weithredol, ond gall y gwaith o oruchwyllo, rheoleiddio ac arolygu barhau fel y maent ar hyn o bryd. Os caiff rheoliadau'r gweithlu eu newid, byddai hyn yn gofyn am gofrestr broffesiynol	Gallai'r Senedd wneud darpariaethau mewn perthynas â rheolaeth a goruchwyllo gweithredol a deddfwriaethol. Byddai angen sefydlu cyrff goruchwyllo, rheoleiddio ac arolygu newydd, neu

		newydd neu gorff rheoleiddio Cymreig newydd.	ddefnyddio trefniadau presennol.
Cyllid	Yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth y DU/HMPPS. Mae angen rhywfaint o gapasiti ychwanegol yn Llywodraeth Cymru.	Swyddogaethau cost gweithredol wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru fel rhan o'r grant bloc. Angen capasiti ychwanegol ar gyfer cymorth gweinyddol a sefydlu uned Llywodraeth Cymru.	Costau wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru fel rhan o'r grant bloc ochr yn ochr, yn dibynnu ar drafodaethau, â rhywfaint o gyllid ar gyfer costau cychwyn cyrff newydd. Mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau newydd, gwella capasiti, a gweithredu strwythurau llywodraethu o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru.
Rhyngweithio â gwasanaethau a chyrrff datganoledig/wrth gefn	Dim newid, ond gallai cydgomisiynu ganiatáu mwy o aliniad a chydgysylltu â gwasanaethau datganoledig.	Yn caniatáu ar gyfer mwy o gydgyssylltu â gwasanaethau datganoledig. Bydd angen sefydlu perthnasoedd ffurfiol gyda gwasanaethau a llysoedd a gadwyd yn ôl.	Yn caniatáu ar gyfer llawer mwy o gydgyssylltu ac integreiddio posibl â gwasanaethau datganoledig. Byddai angen cytuno ar berthnasoedd ffurfiol, gan gynnwys unrhyw rôl mewn llywodraethu, a darparu ar eu cyfer â gwasanaethau a llysoedd a gadwyd yn ôl (drwy

			ddeddfwriaeth Senedd y DU yn ôl pob tebyg).
Materion trawsffiniol	Dim newid.	Bydd angen dod i gytundeb ar drosglwyddo carcharorion a materion trawsffiniol eraill.	Bydd angen dod i gytundeb ar drosglwyddo carcharorion a materion trawsffiniol eraill.
Gweledigaeth tymor hir	Gallu cyfyngedig i ddylanwadu ar gyflawni a gwerthoedd trwy gydgomisiynu gwasanaethau.	Mae gallu i newid diwylliant a gwerthoedd sefydliadol yn bodoli, ond ni fyddai rôl y gwasanaeth prawf yn gallu cael ei newid gan Weinidogion Cymru.	Y gallu i'r Senedd, neu gorff a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig, o bosibl addasu diwylliant sefydliadol, gwerthoedd, ac (i ryw raddau) natur gwaith prawf. Mae dedfrydu, dedfrydau o garchar a di-garchar, a gofynion prawf a nodir gan y llysoedd yn parhau y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Casgliad

Mae datganoli'r gwasanaeth prawf yn cynnig cyfleoedd i weithredu model prawf y mae llawer o randdeiliaid yn credu sy'n adlewyrchu ei wreiddiau a'i ddiben gwaith cymdeithasol ehangach, fel y gwelir yng ngwaith y PDG a gwerthoedd ymarferwyr o fewn y gwasanaeth prawf (Deering et al., 2023). Mae datganoli hefyd yn caniatáu gwell cydgysylltu â gwasanaethau datganoledig a dull mwy lleol ac ymatebol at anghenion lleol.

Yng nghyd-destun system gyfiawnder a gadwyd yn ôl yn bennaf, sy'n ymddangos yn debygol o leiaf yn y tymor canolig, rydym wedi nodi tair prif ffordd y gellid datganoli'r gwasanaeth prawf: MoU, datganoli gweithrediaeth, a datganoli deddfwriaethol a gweithrediaeth llawn. Mae'r llwybrau hyn yn cynnig graddau amrywiol o reolaeth, gyda chymbwysedd gwahanol o fanteision a heriau y bydd angen eu hystyried os bydd datganoli'n digwydd.

Mae'n bwysig bod yn glir bod pob llwybr datganoli yn cynnig cyfleoedd ar gyfer newid a gwella'r system bresennol, boed hynny drwy gydgomisiynu gwasanaethau neu ailgynllunio'r ffordd y caiff y gwasanaeth prawf ei reoli a'i gyflawni'n gyfan gwbl. Gall hyd yn oed newid ar raddfa fach gronni i wahaniaethau mwy ystyrlon a sylweddol dros amser, gyda'r swm cywir o adnoddau ac ewyllys gwleidyddol. Er y bydd rhai opsiynau, yn naturiol, yn cynnig llai o le i fynd i'r afael â rhai meysydd sy'n peri pryder nag eraill, mae potensial i unrhyw fath o ddatganoli ganiatáu ar gyfer gwasanaeth sy'n fwy ymatebol yn lleol ac yn cael ei gyflawni yn unol â gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Fodd bynnag, mae pob llwybr hefyd yn cyflwyno heriau penodol. Bydd angen mynd i'r afael â chapasiti, materion yn ymwneud â'r gweithlu, a llywodraethu a'u deall yn gynnar. Bydd y broses o reoli newid hefyd yn arbennig o bwysig, yn enwedig os yw rhai rhanddeiliaid yn teimlo nad yw'r dull a ddefnyddir yn ddigon uchelgeisiol. Dylid deall datganoli fel prosiect hirdymor, ac nid (i adleisio'r ymadrodd enwog) yn ddigwyddiad unigol. Dylai'r broses newid felly gael ei chyfeirio'n glir at nodau tymor hwy.

Nid yw ein hadolygiad wedi ceisio argymhell llwybr penodol at ddatganoli'r gwasanaeth prawf. Daw manteision ac anfanteision cymharol gyda phob un o'i gymharu â'r llwybrau eraill a chyda'r status quo. Bydd gan bob un hefyd feini prawf gweithredu gwahanol, gan gynnwys cyflymder a chwmpas y newid, graddau'r annibyniaeth o fewn y system, a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau prawf. Bydd angen ystyried trefniadau atebolrwydd a goruchwyllo yn ofalus hefyd. Bydd ymchwil ac arfarniad pellach o'r opsiynau hyn yn helpu i wella'r paratodau ar gyfer unrhyw setliad datganoli a gyrhaeddir.

Yn y pen draw, bydd pa lwybr a ddilynir yn dibynnu ar drafodaethau rhwng llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Er mwyn llywio'r hyn a fydd felly yn benderfyniad gwleidyddol, fodd bynnag, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried:

- Diben datganoli yng ngoleuni'r hyn y mae pob opsiwn yn ei alluogi, ac yn enwedig i ba raddau y gellir gwireddu'r gwerthoedd a'r egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio gan y gwasanaeth prawf;
- Goblygiadau pob opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau prawf;
- I ba raddau y mae angen cyllid neu ddatblygu capasiti ychwanegol ar gyfer pob opsiwn, a fyddai angen cyllid o gyllideb Llywodraeth Cymru;
- I ba raddau y byddai gwasanaeth prawf Cymreig yn rhyngweithio â'r llysoedd, carchardai ac agweddau eraill ar y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig os yw'r gwasanaeth Cymreig yn wahanol i'r dull a ddefnyddir yn Lloegr; a
- Yr angen am gynllunio gofalus, ystyriol a gweithredu newid fesul cam er mwyn sicrhau y gellir ysgwyddo cyfrifoldebau newydd mewn ffordd reoledig sy'n amddiffyn staff, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, ac yn hyrwyddo canlyniadau gwell i bawb.

Cyfeiriadau

Arologiaeth Prawf EF. (2022). **Regional review letter: Probation Service – Wales Region**. Cafwyd o <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation/inspections/walesrpdletter/>

Arologiaeth Prawf EF. (2023). **Annual Report 2022/23**. Cafwyd o <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2023/09/2022-2023-HMIP-Probation-Annual-Report-v1.0.pdf>

Audit Scotland (2022). **Social security: progress on implementing the devolved benefits**. Cafwyd o: https://audit.scot/uploads/docs/report/2022/nr_220519_social_security.pdf

Baroness Scott o Bybrook. (2022). **Ateb i gwestiwn ysgrifenedig UIN HL207: CAF/CASS and Probation Service**. Tŷ'r Arglwyddi Senedd y DU. Cafwyd o <https://questions-statements.parliament.uk/written-questions/detail/2022-05-12/HL207/#>

Beck, P., a McGinnis, E. (2022). **An Exploration of the Relationship Between Probation Supervision and Desistance: A Systematic Narrative Review**. Irish Probation Journal (19), pp.97-118.

Borja, S., Feilzer, M., Field, S., Griffith, G., Hall, B., Heath, B., Maguire, M., a Williams, K. (2023). **Governance and Partnerships**. in Probation Development Group (2023). Cafwyd o <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Carr, N. (2023). **Probation is not a panacea for the prison crisis**. Probation Journal 70(4), pp.327-330. Cafwyd o <https://doi.org/10.1177/02645505231213680>

Carter, P. (2003). **Managing offenders, reducing crime: A new approach**. Swyddfa'r Cabinet, llywodraeth y DU. Cafwyd o <https://web.archive.org/web/20070613171735/http://www.cabinetoffice.gov.uk/stategy/downloads/files/managingoffenders.pdf>

Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. (2014). **Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru**. Cafwyd o <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7e4929e5274a2e8ab47080/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf>

Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. (2019). **Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru**. Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf>

Commission on the UK's Future. (2022). **A New Britain: Renewing our democracy and rebuilding our economy**. Labour Party (UK). Cafwyd o <https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Commission-on-the-UKs-Future.pdf>

Cyfraith Cymru. (2021). Datganoli 'gweithrediaeth' (1998-2007). Cafwyd o <https://cyfraith.llyw.cymru/cyfansoddiad-llywodraeth/cyfansoddiad-datganoli/datganoli-gweithrediaeth-1998-2007>

Deans, D. (2024). **Labour won't fiddle with police powers – Stevens**. BBC News, 18 Mehefin 2024. Cafwyd o <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cq557jee25qo>

Deering J., Feilzer, M., McConnel, S., a Rabaiotti, E. (2023). **Values and Principles**. in Probation Development Group (2023). Cafwyd o <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Drakeford, M. (2019). **Ymateb i Leanne Wood AM**. Cyfarfod Llawn y Senedd, 22 Ionawr 2019. Cafwyd o <https://record.assembly.wales/Plenary/5419#C157931>

Fair, H., a Walmsley, R. (2024). **World Prison Population List (fourteenth edition)**. Institute for Crime & Justice Policy Research. Cafwyd o: <https://eprints.bbk.ac.uk/id/eprint/53464/>

Garside, R. (2004). **Who delivers, and why it matters**. Centre for Crime and Justice Studies. Cafwyd o <https://www.crimeandjustice.org.uk/resources/who-delivers-and-why-it-matters>

Gough, D. (2005). **'Tough on probation': Probation practice under the national offender management service**. Community Justice: Issues for Probation and Criminal Justice. Collumpton: Willian Publishing, pp.91-105.

Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf. (2023). **Towards a devolved probation service in Wales**. Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Cafwyd o <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2021). **The Target Operating Model for probation services in England and Wales**. Cafwyd o <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/>

[attachment_data/file/1061048/MOJ7350_HMPPS_Probation_Reform_Programme_TOM_Accessible_English.pdf](#)

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2022). **Statutory Guidance: Core probation roles and qualification requirements.** Cafwyd o <https://www.gov.uk/government/publications/statutory-guidance-core-probation-roles-and-qualification-requirements>

Ifan, G. (2019). **Fiscal implications of devolving justice.** Canolfan Llywodraethu Cymru. Cafwyd o https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0010/1699219/Fiscal-implications-report-FINAL.pdf

Johal, R. a Davies, N. (2022). **Reunification of probation services.** Institute for Government. Cafwyd o: <https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/probation-case-study.pdf>

Jones, R and Wyn Jones, R. (2022). **The Welsh Criminal Justice System: On the Jagged Edge.** Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, R. (2023). **Prisons in Wales: 2022 Factfile.** Canolfan Llywodraethu Cymru. Cafwyd o <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/163917/1/Prisons%20in%20Wales%20-%202022%20Factfile.pdf>

Justice Committee. (2021). **The Future of the Probation Service. (HC285 2019-21).** Senedd y DU. Cafwyd o: <https://committees.parliament.uk/publications/5602/documents/66142/default/>

Kay, C. (2016). **Good cop, bad cop, both? Examining the implications of risk based allocation on the desistance narratives of intensive probationers.** Probation Journal, 63(2), pp.162-168.

Kenton, O., a Moore, R. (2020). **The quality of pre-sentence information and advice provided to courts.** Arolygiaeth Prawf EF. Cafwyd o: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2020/08/2020.04-The-quality-of-pre-sentence-information-and-advice-provided-to-courts.pdf>

Kersley, A. (2024). **The Probation Service is “In Meltdown”, Say Staff.** The House Magazine, PoliticsHome. Cafwyd o <https://www.politicshome.com/news/article/probation-service-in-meltdown>

Llywodraeth Cymru. (2017). **Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Cefnogi pobl ifanc sy'n troseddu.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/cefnogi-pobl-ifanc-syn-troseddu>

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Cefnogi troseddwy'r benywaidd.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/cefnogi-troseddwy'r-benywaidd>

Llywodraeth Cymru. (2022). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru>

Llywodraeth Cymru. (2024). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd 2024.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-adroddiad-cynnydd-2024.html>

Llywodraeth yr Alban (2022). **Scottish Government Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA): National Guidance.** Cafwyd o: <https://www.gov.scot/publications/scottish-government-multi-agency-public-protection-arrangements-mappa-national-guidance/documents/>

Maguire, M., Jackson, J., Williams, K., Cram, F. a Feilzer, M. (2024). **IOM in Wales after the Refresh: Practitioner views of integrated offender management.** Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Cafwyd o https://wccsj.ac.uk/images/j3wccsj_all_content/documents/publications/2024/IOM%20Wales%20report%20FINAL%20May%202024.pdf

Miller, E. a Barrie, K. (2022). **Setting the Bar for Social Work in Scotland.** Social Work Scotland. Cafwyd o <https://socialworkscotland.org/wp-content/uploads/2022/05/Setting-the-Bar-Full-Report.pdf>

Millings, M., Burke, L., Annison, H., Carr, N., Robinson, G., a Surrridge, E. (2023). **A necessary but painful journey: Experiences of unification in a probation service region.** Probation Journal, 70(4), pp.331-349.

NAPO Cymru. (2018). **Ymateb NAPO Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.** Cafwyd o <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/Submission%20to%20the%20Justice%20Commission%20from%20NAPO%20Cymru.pdf>

Notman, G., Price, J., a Tilley, H. (2024). **Building a Welsh probation service: Part 2: Country comparison.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Rabaiotti, E. (2024). **People on probation as an inclusion health group: Exploring needs, barriers and service provision in Wales.** Probation Journal, OnlineFirst. Cafwyd o <https://doi.org/10.1177/02645505241247291>

Rabaiotti, E. a Harrison, M. (2023). **Is partnership working? Complexities and barriers in the development of community safety practice in Wales.** Crime Prevention and Community Safety 25, pp.318-337. Cafwyd o <https://doi.org/10.1057/s41300-023-00184-2>

Raynor, P. a Deering, J. (2023). **Effective practice for a devolved Probation Service.** in Probation Development Group (2023). Cafwyd o <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Robinson, G., Annison, H., Burke, L., Carr, N., Millings, M., a Surridge, E. (2023). **Whose confidence? Regional leaders' perspectives on building confidence in a reconfigured probation service.** Criminology & Criminal Justice.

Rolfe, M., Brown, E., Smith, F., a Cunningham, S. (2023). **An Evaluation of Victim's Needs in the Criminal Justice System.** Crest Advisory. Cafwyd o <https://www.crestadvisory.com/post/report-evaluation-of-victims-needs-in-the-criminal-justice-system>

Rowland, C. (2024a). **Fixing public services: The criminal justice system.** Institute for Government. Cafwyd o <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/fixing-public-services-labour-government/criminal-justice-system>

Rowland, C. (2024b). **The crisis in prisons.** Institute for Government. Cafwyd o <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/crisis-prisons>

Tidmarsh, M. (2020). **The probation service in England and Wales: A decade of radical change or more of the same?** European Journal of Probation, 12(2), pp.129-146.

Whitehead, S. (2018). **The changing use of pre-sentence reports.** Centre for Justice Innovation. Cafwyd o: <https://justiceinnovation.org/publications/changing-use-pre-sentence-reports>

Whitehead, S., ac Ely, C. (2018). **Renewing Trust: How we can improve the relationship between probation and the courts.** Centre for Justice Innovation. Cafwyd o: <https://justiceinnovation.org/publications/renewing-trust-how-we-can-improve-relationship-between-probation-and-courts>

Y Blaid Lafur. (2024). **Change – The Labour Party Manifesto 2024**. Cafwyd o <https://labour.org.uk/change/>

Y Gwasanaeth Prawf. (2021). **Probation Service England and Wales regional maps**. Cafwyd o <https://www.gov.uk/government/publications/national-probation-service-england-and-wales-divisions-map>

Manylion yr Awduron

Mae **Dr Jack Price** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Greg Notman** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Jack Price

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored